"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda"—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] RHAGFYR, 1876. [RHIF 46.

RHIFYN COFFADWRIAETHOL.

CYNNWYSIAD.

TUD.
Helbul yn Llwynrhydowen 217
Cynnulleidfa o Annghydffurfwyr wedi eu troi allan o'u Capel 218
Erthyglau Arweiniol y Wasg 224
Pregeth y Parch. W. Thomas, M.A., mewn cyfarfod yn yr Awyr Agored 235
Araeth Mr. C. H. James, Merthyr 237
Dyfyniadau 239
Nodiadau 241
Llythyrau 242
Penderfyniadau 244
Hanesion 247
Marwgofion 248

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:
ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL-PLACE.

TRYSORFA Y CAUAD ALLAN YN LLWYNRHYDOWEN, SIR ABERTEIFI.

MAE hen gynnulleidfa barchus y Llwyn wedi eu chau allan o'i chapel a'i difeddiannu o'i mynwent llawn o feirwon. Y rhesymau a roddid gan y tirfeddiannwr, perchenog presenol ystâd Alltyrodyn, oedd (1) nad oedd ymddiriedolwyr wedi eu happwyntio i ganlyn y rhai a enwid yn mhrydles 1781, y rhai oeddynt wrth reswm oll wedi marw. (2) Pe buasai ymddiriedolwyr wedi eu happwyntio yn ol y gyfraith y buasid er hyny yn eu difeddiannu HWYTHAU am fod y capel wedi ei ddefnyddio at ddybenion heblaw addoliad Duw. [Ni roddir yr un eglurhad pa beth a feddylir wrth hyn]. Er fod tair blynedd o'r brydles heb fyned allan, yn hytrach nag ymgyfreithio, barnodd y gynnulleidfa yn ddoethach ar unwaith i ffurfio trysorfa i brynu tir at godi capel newydd coffadwriaethol yn gystal ag at fynwent. Mae y tanysgrifiadau isod wedi eu gwneyd, a byddfy gweinidog a'r gynnulleidfa yn ddiolchgar iawn am bob cymhorth arianol oddiwrth gyfeillion rhyddid gwladol a chrefyddol yn mhlith pob enwad.

	£	s.	d.
The Congregation and Friends in the neighbourhood ...	515	15	0
Samuel Sharpe, London .	50	0	0
David Price, Cavendish square, London	25	0	0
Mrs. Timothy Davis, Evesham	10	0	0
Rev. David Griffith, Cheltenham	5	0	0
Mrs. David Griffith ...	2	0	0
Evan Jenkins, National & Provincial Bank of England, Lond.	5	0	0
Ben. T. Williams, Q.C., London	3	3	0
Rowl. Lewis, solicitor, Merthyr	3	3	0
Robert H. Parnall, London ...	5	5	0
G. S. Wood, Bodlondeb, Conway	5	0	0
D. L. Rees, Tanyfoel, Lampeter	5	5	0
J. & E. Davies, surgeons, Maesteg	3	3	0
Rev. Ed. Higginson, Swansea...	2	2	0
Miss Caroline Williams, 9, Porchester square, London ..	2	2	0
Walter D. Jeremy, barrister-at-law, London	2	2	0
Rev. R. J. Jones, M. A., Aberdare	2	2	0
John Colston, Evesham ...	2	2	0
E. Jones, Aberdare Gas Works	1	1	0
J. Hunton Smith, Carmarthen	1	1	0
Rev. E. W. Lloyd, Cwmbach, Aberdare	1	1	0
Thos. Thomas, National Provincial Bank of England, London	1	1	0
W. Simons, solicitor, Merthyr .	1	1	0
R. O. Gery, solicitor, Aberdare.	1	1	0
Wm. Rees, Velindre, Lampeter	1	1	0
J. Thomas, Blaengwern, Llanarth	1	1	0
Wm. Evans, Neuadd, Newquay	1	1	0
Henry Davies & Co., Liverpool	1	1	0
Rev. J. M. Prytherch, Independent Minister, Llanarth ...	1	1	0
Rev. J. G. Evans, Carmarthen	1	1	0
William Williams, H.M. Inspector of Schools, Tenby ..	1	1	0
Evan M. Richards, Brooklands, Swansea	10	0	0
Mrs. Stephenson Hunter, Carm.	1	1	0
Miss Hunter	1	1	0
Mrs. Jones, Mount Pleasant Garden, Aberdare ...	1	1	0
J. L. Ellerbeck, Liverpool ...	1	1	0
Mrs. Wallace, Hampton, Evesham	5	0	0
The Misses Hampson, High st., Evesham	5	0	0
A Friend, Llandyssul ...	2	0	0
J. H. Rowland, The Bank, Neath	5	0	0
John Thomas, Cwmavon ...	0	3	0
Miss Williams, Girls' Schools, Llandyssul	2	0	0
John Lloyd, Cardigan ..	2	0	0
Collection at the English Unitarian Chapel, Aberdare ...	1	4	0
E. Thomas, ironmonger, Aberdare	2	2	0
John Jones, chemist, Aberdare .	2	2	0
David Jones, chemist, Aberdare	2	2	0
Richard Bedlington, mining engineer, Aberdare ..	2	2	0
T. Phillips, solicitor, Aberdare	2	2	0
J. Rhys, Rock Brevery, Aberdare	2	2	0
R. Lewis, ironfounder, Aberdare	2	2	0
C. H. James, solicitor, Merthyr	5	0	0
Frank James, solicitor, Merthyr	2	2	0
T. Thomas, ironmonger, Merthyr	2	2	0
J. W. Gunn, merchant, Merthyr	1	1	0
M.W. Roberts, ironmonger, Merthyr	1	1	0
Mrs. Thomas Stephens, Merthyr	0	10	6
Peter Williams, Telegraph Office, Merthyr	0	10	6
J. D. Williams, jeweller, Merthyr	0	10	0
T. Rowlands, 89, Duke Street, Liverpool	0	10	0
J. Jones, sailmaker, Newquay..	0	10	6
J. Rees, Sunny Hill, Llanarth..	0	10	6
W. W. P., Hackney, London..	0	4	0
Joseph Chirm, Birmingham ...	2	2	0
Mrs. Jeffrey, Bath ...	1	0	0
W. Loughor, Lantwit Major ..	0	5	0
D. Davies, Galon Ucha, Merthyr	0	10	6
Evan Davies, Llandyssul ..	1	1	0
Morgan B. Williams, Swansea .	10	0	0
Mrs. Aubrey, Swansea ..	1	1	0
Rev. John and Mrs. Robberds Cheltenham	5	5	0
E. Potter, Hatfield, Herts ...	10	0	0
Mrs. James Yates, London ...	5	5	0
J. Wiliams, Harriet st., Aberdare	0	10	6

Trysorydd:—John Jones, Ysw., Cyfreithiwr, Llandyssul.

Ysgrifenydd:—Parch. Wm. Thomas, M.A., The Grammar School, Llandyssul.

YR

YMOFYNYDD.

Cyfres Newydd.] RHAGFYR, 1876. [Rhif. 46.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."

RHIFYN COFFADWRIAETHOL.

HELBUL YN LLWYNRHYDOWEN.

Fe welir fod ein rhifyn presenol wedi ei gymmeryd i fyny bron yn gyfangwbl gan un pwnc, ac nid ydym yn dysgwyl y bydd neb o'n darllenwyr yn ein hannghymmeradwyo am hyny. Mae'r amgylchiad a groniclir mor bwysig, mor rhyfedd, ac mor eithriadol, fel yr ydym yn tybied ei bod yn ddyledswydd arnom i roddi'r hanes mor gyflawn ag y medrwn. Fe welir fod y wasg Gymreig a Seisnig wedi rhoddi cyhoeddusrwydd neillduol i'r pwnc, ac yr ydym yn ddiolchgar am hyny. Fe ddylai'r hanes gael ei daenu ar hyd a lled gwlad. Mae'r *South Wales Daily News* yn teilyngu cymmeradwyaeth arbenig pob Annghydffurfiwr am y rhan flaenllaw mae wedi gymmeryd yn y mater hwn; efe ar y cyntaf agorodd y drws fel y gallai'r cyhoedd weled beth oedd wedi cymmeryd lle, ac y mae wedi rhoddi ei golofnau yn agored bob dydd oddiar hyny i ddal y pwnc yn ei holl hagrwch a'i holl greulonder o flaen llygaid y byd. Mae wedi profi ei hun felly nid yn bapyr plaid, ond yn amddiffynydd dewr a gonest egwyddorion rhyddid a chwareu teg. Gobeithiwn y bydd i bob Rhyddfrydwr, ar ol hyn, ei bleidio a'i amddiffyn yn fwy nag erioed. Yr ydym yn lwcus fod genym y fath bapyr yn Nghymru i fwrw ei fantell amddiffynol drosom, a gweled nad oes neb yn cael dyoddef, heb i'r newydd gael ei drosglwyddo i "glustiau tosturi" yn mhob man. Da genym fod papurau ereill wedi cymmeryd y pwnc i fyny hefyd, ond odid lawer rhagor o honynt nag ydym ni wedi cael y pleser o weled. Yr ydym wedi dewis yn hytrach i'r newyddiaduron gyhoeddi'r hanes nâ ni ein hunain.

Nid ydym yn credu y gall un dyn *respectable*, o oedran addfed, parchus yn ei gymmydogaeth, ar ol darllen yr hanes, bydded Ryddfrydwr neu Geidwadwr, Annghydffurfiwr neu Eglwyswr, gymmeradwyo y weithred. Dyn yw dyn lle bynag y byddo, yn y bwthyn neu

yn y palas, a chreulonder yw creulonder nad gan bwy y cyflawnir ef. A lle bynag y byddo calon dyn yn curo mewn mynwes dyn, os ca chwareu teg y mae'n rhwym o annghymmeradwyo y weithred hon.

Yr ydym yn myned yn rhy bell. Felly y dylai fod, ond nid felly y mae'n bod. Mae dynion rhyfedd yn y byd, a hanes rhyfedd yw ei hanes. Dynion heb ganddynt amcanion uchel yn y byd, heb barch i gydwybod, yn gwneuthur uniondeb a gonestrwydd yn iswasanaethgar i'r hyn a ystyriant eu lles eu hunain; yn barod i roddi eu hunain i fyny i wasanaeth yr *highest bidder*, hyd y nod pe'r diafol ei hunan fyddai. Y cyfryw ddynion, wrth gwrs gallant ganmol unrhyw beth. Ni waeth beth fyddo os daw a cheiniog i'r boced—"*Serve them right.* Nid ydynt hwy ddim ond *pack* o Sosiniaid. Beth waeth am danynt! Sarnwch hwy. Llosgwch hwy,—na, ellwch chwi ddim o'u llosgi hefyd, mae cyfraith y wlad yn pallu hyny, fel y mae gwaethaf y modd. Ond unrhyw beth hyd at hyny." Nid oes neb all ddweyd beth allai ddygwydd hyd y nod yn awr yn y 19eg canrif, oni bai cyfraith y wlad. Yr ydym wedi darllen pethau rhyfedd ambell bryd yn ngwynebpryd rhai dynion. Pe byddai dim ond y gallu ganddynt. Ond dyna, gadawer iddynt, y dynion mwyaf anhapus yn y byd ydynt. Mae'n well i ddyn fil o weithiau, mor bell ag y mae a fyno tawelwch meddwl ag ef, i gael ei erlid na bod yn erlidiwr. Da genym allu credu fod *young Lloyd* yn gwbl ddieuog o'r camwri mawr—nid yw efe ond offeryn anwybodus yn y mater, yn ei ieuenctid a'i ddiffyg profiad, yn gweithredu dan ysgogiad ereill sydd y tu cefn. Os caiff fyw, fodd bynag y mae dydd edifeirwch am y weithred yn sicr o'i orddiwes; ond am ei gynghorwyr, pwy bynag ydynt, feallai bydd yn rhaid iddynt aros yn hwy.

Gobeithiwn mewn rhifyn dyfodol, gael y fraint o roddi ychydig o hanes eglwys Llwynrhydowen.

(O'r *Faner*, Tachwedd 8, 1876.)

"CYNNULLEIDFA O ANNGHYDFFURFWYR WEDI EU TROI ALLAN O'U CAPEL.

"Erledigaeth Greulawn.

"Y Sabbath, wythnos i'r diweddaf, fel y darfu i ni hysbysu yn ein hailargraffiad ddydd Mercher diweddaf, yn gystal ag yn Maner dydd Sadwrn, trowyd cynnulleidfa yr Undodiaid ag oedd wedi arfer addoli yn Llwynrhydowen, Llandyssul, allan o'u lle addoliad. Ni a geisiwn roddi y ffeithiau, ol a blaen, mor gywir ac mor gyflawn ag sydd yn bossibl.

"Daeth yr awgrym gyntaf fod mewn bwriad i aflonyddu ar yr hen gynnulleidfa barchus hon mewn llythyr oddiwrth Mr. Mason Allen, 1 John Street, Bedford Row, dyddiedig Hydref 20fed, a chyfeiriedig at Mr. John Jones, cyfreithiwr, un o aelodau y capel. Dylid crybwyll mai y Mr. Allen hwn yw prif oruchwyliwr Mr. John Davies Lloyd, perchenog presenol ystâd Allt-yr-odyn—tua banner etifeddiaeth helaeth yr hwn a werthwyd yn agos i ddwy flynedd yn ol. Yn y llythyr cry-

bwylledig, rhydd Mr. Allen, yn chwanegol at dôn uchelfrydig ei lythyr, ddau reswm paham yr oedd y capel i gael ei gau. Yn gyntaf, am nad oedd ymddiriedolwyr (*trustees*) wedi eu pennodi i ddilyn yr ymddiriedolwyr a enwasid yn mhrydles 1781—o'r hon y mae tair blynedd, sylwer, etto heb redeg allan. Wrth reswm, y mae yr oll o'r hen ymddiriedolwyr ag oeddynt wedi eu pennodi mor bell a chant ond pump o flynyddoedd yn ol, a'r rhai oeddynt y pryd hwnw yn sicr o fod yn ganol oedran, a rhai yn hen, wedi meirw er's talm. Y mae yn debyg mai y rheswm na lanwyd eu lle oedd gormod o ymddiried yn hen deulu parchus Allt-yr-odyn, a sicrwydd meddwl na chawsai y gynnulleidfa byth mo'i haflonyddu, gan annghofio fod marwolaeth yn y byd, ac y dichon i dirfeddiannwr cyfiawn a charedig gael ei ganlyn gan un o gymmeriad hollol wahanol. Gobeithio, gyda llaw, y bydd y dygwyddiad prudd presenol yn wers o rybudd i gapeli ereill yn y Dywysogaeth i edrych pa fodd y safant, ac i osod eu tŷ mewn trefn.

"Yr ail reswm a roddid oedd, pe buasai ymddiriedolwyr wedi eu happwyntio yn rheolaidd, yn lle yr hen rai, er hyny fod ammodau y prydles wedi eu tori, yn gymmaint a bod y capel wedi ei ddefnyddio i ddybenion ereill heblaw addoliad Duw. Nid oes brawf nac eglurhad wedi ei roddi o'r achwyniad hwn. Y mae cyfarfodydd adroddiadol, a chyngherddau, a chyfarfodydd tê wedi eu cynnal yma—er nad yn fynych, etto ar brydiau. Ond y dybiaeth gyffredin ydyw mai achos y tramgwydd mewn gwirionedd ydyw y cyfarfodydd a gynnaliwyd yn y capel rai troion yn ystod ymdrechfa etholiadol fythgofiadwy 1868, a thrachefn yn ngwanwyn 1871, pan y ceisiodd mwyafrif plwyfolion Llandyssul i osod Gweithred Addysg Mr. Forster, er nad yn berffaith wrth eu bodd, mewn ymarferiad, ac y trechwyd hwy trwy fygythion. Dyma wers arall: dylid esbonio "addoliad Duw," ar wedd ëang iawn, ynte gosod adranau i mewn i ganiatau cyfarfodydd adloniadol a pholiticaidd; neu ynte, i gael neuaddau dirwestol, neu rywbeth o'r cyffelyb, i gynnal amrywiol gyfarfodydd cyhoeddus.

"Dydd Sadwrn, wythnos i'r diweddaf, esgorodd y bygythiad rhagrybuddiol blaenorol ar ganlyniadau a hir gofir yn yr ardaloedd hyn. Gwasanaethwyd tri o aelodau mwyaf ffyddlawn a blaenllaw y lle—o leiaf, i fod yn gywir, dau a wasanaethwyd, gan fod y trydydd yn dygwydd bod oddicartref—yn gynnar yn y dydd â rhybudd i beidio, ar berygl cosp y gyfraith, i gynnyg myned o fewn y fynwent na'r capel; ac yn ddiweddar yn y prydnawn, ac yn olaf, y gweinidog, y Parch. William Thomas, M.A., yr hwn sydd wedi bod yn weinidog y gynnulleidfa hon, a Chapel-y-Fodfa, tair milldir o ffordd yn nghyfeiriad glàn y môr (*Cardigan Bay*), am bron yr ugain mlynedd diweddaf. Lledodd y newydd fel tân gwyllt trwy y gymmydogaeth; a phrydnawn dydd Sul, am ddau o'r gloch, yr oedd y brif ffordd lydan wrth dalcen y capel (y mae 4 ffordd yn cyfarfod yn y fan) yn orlawn o wrandawyr. Barnwyd yn ddoethach i beidio a chynnyg myned i mewn i'r adeilad; felly, safodd y gweinidog y tu allan i borth y fynwent, a thorf, a gyfrifid yn rhywle tua 3,000 i 4,000 o'i flaen—y rhan fwyaf fel wedi eu taraw â mudandod ac â syndod, a lluaws mawr yn wylo

dagrau heilltion, ac yn griddfan, ac yn ocheneidio, nes mai gydag anhawsder mawr ar brydiau y gallai y gweinidog fyned rhag ei flaen. Yr oedd yno wyliwr, beili neu *spy*, wedi ei ddanfon i edrych a fuasai ymgais yn cael ei gwneyd i fyned y tu fewn i borth y fynwent; a safai y truan gwirion, gwas twt erlidwyr yr achos goreu, yn union o flaen y pregethwr, â'i gefn ar fur yr hen westty cyfrifol gyferbyn â'r capel. Ni cheisiwyd myned i mewn, ond pregethwyd wrth un o fyrddau y capel ag yr oeddid wedi ei nôl allan i'r dyrfa fawr. Yr oedd y darnau o'r Ysgrythyr, yr hymnau yn gystal a'r bregeth, yn gyfaddas i'r amgylchiad. Testyn y bregeth oedd y rhybudd ag oedd wedi ei wasanaethu ar y gweinidog, a'r frawddeg arweiniol oedd "ei fod ef (Mr. Thomas) wedi arfer cael dewis ei destyn, ond fod un wedi ei roddi iddo y diwrnod hwnw, a thestyn hynod, sych a diffaith iawn. Yr oedd lawer testyn yn y Beibl yn daranllyd ac yn fygythiol, ond yr oedd *sŵn addewid* ryw le heb fod yn mhell; ond yma, nid oedd adsain leiaf addewid o gwbl." Aeth yn frâs dros hanes y gynnulleidfa, yn cyrhaedd yn ol at y Ddwy Fil. Nid fel Undodiaid, ond dan yr enw o Bresbyteriaid hyd yn 1726, pan y darfu i ymraniad gymmeryd lle yn hen gapel Pantycroyddyn, ger Gelli Faharen, rhyw ddwy filldir oddiwrth gapel Llwynrhydowen; a phan yr aeth "seithwyr da eu gair" allan o'r lle olaf, fel Abraham gynt, ac fel y gynnulleidfa heb gapel yn bresenol, ac yr arosodd y blaid Galfinaidd yn Pantycroyddyn am beth amser nes iddynt adeiladu capel yr ochr arall i ddyffryn Cerdin, yr hwn a adnabyddir trwy Gymru gron dan yr enw Horeb. Arminiaid oedd y saith blaenor. Nid oes a fynom â hyny yn mhellach na chofnodi ffeithiau hanesyddol. Ac na ddyweded neb nas gwaeth ganddynt am yr erledigaeth bresenol am mai Undodiaid yw y rhai a erlidir yn awr. Y mae Undodiaid fel ereill yn sefyll ar dir eang ac anrhydeddus Annghydffurfiaeth. Ac ni ŵyr neb tro pa enwad fydd hi nesaf. Nid amddiffyn Undodiaid fel y cyfryw y mae neb wrth feio yr erledigaeth hon, eithr yr ydys yn syrthio yn ol ar esgynlawr mawr rhyddid gwladol a chrefyddol i bawb.

"Dywedodd Mr. Thomas fod olyniaeth yr eglwys yn myned yn ol yn mhell i amser y Ddwy Fil, mewn rhyw ffurf neu gilydd—fod dulliau o feddwl ac o ddeongli yr Ysgrythyrau yn amrywio o oes i oes, ond nad oedd baner rhyddid crefyddol byth i gael ei thynu i lawr oddiar binaclau y wir eglwys; yr hon a wneir i fyny, nid o ryw un enwad, ond o saint ac o ffyddloniaid goreu pob enwad. Yr oedd ysbryd erledigaeth—boddlonai efe os cai neb air mwy cymhwys i osod allan ystyr y mudiad presenol—yn para yr un o oes i oes, er fod y dull yn newid. Ond yr oedd rhywbeth o natur barhaus mewn gwir grefydd, gan ei bod hi wedi bod mewn ogofäau, ffauau llewod, ffwrneisi wedi eu poethi seithwaith yn boethach nag arferol, ie, wedi bod ar y Groes ei hun—ond wedi goroesi yr oll, ac yn debyg o fyw ar ol i gynddaredd dyn fyned i'r bythol anghof.

"Dywedai rhai y gallai dyn wneyd fel y mynai â'r eiddo ei hun. Dylesid cofio fod i eiddo ei ddyledswyddau yn gystal a'i freintiau—*property has its rights as well its duties.* Cydnabyddai fod hawl gyfreith-

iol gan ddyn i wneyd llawer o bethau: gallai saethu ei anifeiliaid, neu osod tân yn ei dŷ (os yn berchen arno). Gallai yn wir wastraffu hanner ei etifeddiaeth, ar geffylau a chardiau, gwinoedd a phuteiniaid. I hyny, dichon, os yn berchen ar ddigon o feddiannau, fod ganddo *legal right*, ond nid oedd ganddo hawl foesol — *moral right*. Dywedai mai pregeth angladdol mewn ffordd yr oedd yn ei thraddodi, ond fod i'r gladdedigaeth alarus hon obaith cryf am adgyfodiad gwell, os nad ar ystâd Alltyrodyn, fel yr oedd gwaethaf y modd, etto ar ryw ystâd arall. Ni thybiai ef nad oedd gan lawer yno yn wyddfodol fwy o hawl yn y fynweut na'r cyfryw a fynent eu cau allan o honi. Yr oedd yno lawer âg iddynt yn gorwedd yn y lle cyssegredig briod neu blentyn, brawd neu chwaer. A yw hyny ddim yn eiddo? Amcenir ein colledu a'n niweidio oll gyda'n gilydd. Amcenir yn neillduol i niweidio fy amgylchiadau bydol i. Yn gwybod nad wyf ond dyn tlawd a chenyf deulu lluosog yn dibynu arnaf, bwriedid fy nystewi i trwy golledu fy amgylchiadau. Ond nid oes arnaf gymmaint o ofn hyn. Cyhyd ag y caf eich cydymdeimlad chwi, ac y parhaf yn ffyddlawn gyda gwaith Duw, gan ddwyn fy nhystiolaeth i'w wirionedd; er i eryrod ysglyfaethus erledigaeth ymosod arnaf, Duw a ddenfyn ei gigfran i fy morthi â bara a chig y boreu, ac â bara a chig brydnawn."

"Er hyn oll, na fydded i ni ymollwng yn ein heneidiau. Darfu i'n tadau a'n mamau yn yr hen amser ddyoddef hyd angeu dros achos Duw. Os yn gyfranog o freintiau a bwrcaswyd i ni trwy eu dyoddefiadau hwy, ni a ddylem hefyd ymfoddloni i fod yn gyfranog o'u dyoddefiadau. Bydd i'r Duw a'u helpodd hwy fod yn blaid i ninnau. Na fydded i neb o honom geisio talu drwg am ddrwg, ond meddiannu ein hunain mewn amynedd yn awr y brofedigaeth ddu. Ie, er mor galed ydyw hi, er na chawn fyned—o leiaf na chawn hyny gyda chenad a boddlonrwydd y rhai a'n herlidiant—i mewn i'r hen fynwent yma i gusanu llwch beddau ein hanwyliaid, a thrwsio y blodau arnynt, nac addoli lle y bu eich hynafiaid yn addoli am lawer oes; etto, wedi'r cwbl, bydded i ni, yn nerth Duw, ymdawelu, a gadael ein hachos yn ei law.

"Nid yw yr uchod ond braslun lled anmherffaith o'r anerchiad a draddodwyd i'r gynnulleidfa fawr ar yr achlysur pruddaidd a chynhyrfus. Yr oedd y gofid a'r aeth oedd i'w ddarllen yn wynebau y gwrandawyr yn ddolurus i edrych arno. Yr oedd y lle yn fynych yn foddfa o ddagrau. Ond yr oedd perffaith dawelwch, a phob gweddeidd-dra yn teyrnasu o'r dechreu i'r diwedd.

"Ar y diwedd, cyfarfu pwyllgor o benau teuluoedd y gynnulleidfa i ymgynghori â'u gilydd pa beth i wneyd; ac er mwyn bod yn bwyllog, a chael rhai o aelodau pellenig y gynnulleidfa yn wyddfodol, gohiriwyd ef hyd ddydd Iau diweddaf, pan gyfarfuwyd yn nhref Llandyssul, yn ysgoldy y Parch. W. Thomas, yr hwn a alwyd i lywyddu. Yr oedd yno bwyllgor lluosog a chyfrifol, a dau gyfreithiwr parchus, aelodau o gynnulleidfa Llwynrhydowen, i ymgynghori â hwynt gyda golwg ar agwedd gyfreithiol y cwestiwn—B. Evans, Ysw., Castellnewydd Em-

lyn a John Jones, Ysw., Gellifyharen, Llandyssul, cofrestrydd Llys y Mân-ddyledion, Castellnedd, y blaenaf yn ŵyr, a'r olaf yn or-ŵyr, i'r enwog fardd ac ysgolor, "yr hen Ddafis o Gastellhywel," fel ei hadnabyddir yn gyffredin ar aelwydydd Cymru, ac awdwr y cyfieithad o "Myfyrdod mewn Mynwent," gan Gray (*Gray's Elegy*), am yr hwn y dywed Dr. Thomas Rees, o Abertawe, yn ei "Hanes Annghydffurfiaeth yn Nghymru," ei fod yn annghydmharol well na'r gwreiddiol. Buasai Mr. Dafis, o Gastellhywel yn weinidog hen eglwys Llwynrhydowen am y rhan fwyaf o'i oes. Bwriadwn, mewn rhifynau dyfodol, i roi bywgraffiadau y rhai enwocaf, o leiaf, o weinidogion y lle hwn.

"I ddychwelyd at y pwyllgor. Penderfynwyd yn unfrydol, er fod lle cryf i gredu y buasid yn ennill hawl mewn llys cyfraith, i aros yn y capel am y tair blynedd o'r brydles ag oeddynt heb redeg allan, etto, gan fod yr amser mor fyr, ac hefyd y gallasai etifedd Alltyrodyn, Mr. John Davies Lloyd, daflu y gynnulleidfa i gostau mawr wrth ymgyfreithio, y buasai yn ddoethach cadw yr arian a fuasid yn dreulio ar y gyfraith at godi capel newydd ar ryw fan y gallesid, fel yr oeddid yn gobeithio, ei gael gan ryw un o'r tirfeddiannwyr bychain, sef yw hyny, yn byw ar eu tir eu hunain, ag ydynt yn Ymneillduwyr ac yn Undodiaid, ac heb fod yn mhell iawn o'r fan.

"Yn mhellach, er nad oedd yn nghylch hyn hollol gydweithrediad, etto barnodd y mwyafrif y buasai hi yn ddoeth, er mwyn i'r wlad yn gyffredinol ddeall nad oedd dim rhyw ystyfnigrwydd dall wedi meddiannu'r gynnulleidfa, ac nad oeddynt wedi gadael yr un gareg heb ei throi er cael ail adfeddiant o'r adeilad a'r fynwent—y buasai hi yn ddoeth i alw ar yr etifedd, gan ei fod yn dygwydd ar hyn o bryd—er mai yn anfynych iawn y dygwydda hyn—i fod yn aros yn y gymmydogaeth, efe a'i wraig a'i morwyn, yn y gwestty gyferbyn a'r capel cauedig, i alw arno i wneyd yr appêl ddiweddaf. Os y buasai, fel y dysgwylid, yn gomedd, fod i dŷ coed gael ei godi i fyny ar unwaith i gael addoli, tra y byddid yn adeiladu capel newydd eang a phrydferth, i fod yn gofgolofn o goffadwriaeth i'r oesau i ddyfod.

"Galwodd y personau a bennodwyd gyda'r boneddwr ar y prydnawn hwnw; ond ni fynai efe eu gweled hyd dranoeth. Cawsant ei weled dranoeth, ac ystyr ei ateb oedd, na chawsai y gweinidog presenol byth fyned i'r capel na'r fynwent. Yr oedd ei iaith yn rhywbeth rhy ddychrynllyd i feddwl am ei hadrodd. Enwodd berson o'r gymmydogaeth, yr hwn, y mae yn debyg ar hyn o bryd, sydd mewn ffafr yn ei olwg, ac yn weinidog yn perthyn i'r un enwad, sef yr Undodiaid, y cai hwnw y capel ar unwaith am ei fod yn *devilish good fellow of his sort.* Cymmerwyd yr ateb hwn fel gwrthodiad pendant. Yn gyntaf, am fod gan y gweinidog hwnw eisoes eglwys yn yr ardal—cangen o hen eglwys Llwynrhydowen—o fewn milldir a chwarter i Lwynrhydowen. Yn ail, am nas gallai y gynnulleidfa ymadael â'u gweinidog ar gais neu yn ol mympwy Mr. Lloyd, am ei bod yn rheol sylfaenol gydag Annghydffurfwyr, braidd o bob enwad, i honi ac arfer hawl o ddewis eu gweinidogion eu hunain, ac ymadael â hwynt pan welont yn dda. Yn drydydd, pe buasent yn caniatau i'r tirfeddiannwyr i

appwyntio gweinidog iddynt yn awr, dichon y buasai i hwnw droseddu ar ol rhyw gymmaint o amser. Neu ynte, dichon mai y cam nesaf fuasai, fod Mr. Lloyd yn danfon credo wedi ei manufactro yn 1 John Street, Bedford Row, Llundain, neu mewn rhyw law-weithfa arall.

"Darfyddwyd, gan hyny, â phob gobaith, o leiaf ar hyn o bryd, am gael adfeddiant o'r capel.

"Y Sul diweddaf, ymgasglodd cynnulleidfa nid llai lluosog na'r Sul o'r blaen, nid o flaen porth y fynwent, ond yn mhentref bychan Rhydowen, o fewn llai na chwarter milldir i'r hen gapel, wrth felin Mr. Evan Jones, yr hwn sydd yn byw ar ei dir ei hun, yn gyfaill i bob achos o gyfiawnder a rhyddid, ac yn hanu o hen deulu anrhydeddus a pharchus iawn.

"Yr oedd y *South Wales Daily News* a'r *Western Mail* wedi danfon eu *special correspondents* i'r lle, ac yn y papyrau rhagddywededig am ddydd Llun, y mae dau adroddiad maith o'r cyfarfod. Fel arferol, y mae adroddiad y *Western Mail* yn neillduol iddo ei hun, ac yn cynnwys y drwgliwiadau gwaethaf y gellir meddwl am danynt ar y Parch. Mr. Thomas, fel un wedi ymyryd â gwleidiadaeth yn ormodol, ac wedi bod yn siarad ac yn ysgrifenu yn gyhoeddus yn y fath fodd ag i geisio creu teimlad anmharchus yn mhlith y tenantiaid tuag at Mr. Lloyd. Ceisia wawdio Mr. Thomas, yr hwn, gyda diystyrwch, a ymwrthyd â chyhuddiadau ynfyd a maleisus yr organ Toryaidd hwn. Y mae cywilydd ar hyd y nod y *Western Mail* o'r erledigaeth greulawn hon; ac felly ymddengys fod rhyw fodau maleisus wedi bod yn llanw enaid a chalon y *special correspondent* â chelwyddau sychion.

"Yr oedd Mr. Thomas yn cael ei gylchynu gan y Parch. David Evans, B.A., un o'i gynweinidogion, a'r Parch. J. Gwenogfryn Evans, Caerfyrddin, a lluaws o gyfeillion dylanwadol a thwymgalon o bellder mawr o ffordd, heblaw aelodau ei gynnulleidfa.

"Canwyd ar y dechreu gyda hwyl neillduol y pennill melus hwnw:

"Pwy, lle chwiliaf eitha'r bydoedd,
A gaf imi 'n gyssur byw,
Pwy sydd genyf drwy'r holl nefoedd, &c.

"Yr oedd y canu yn rhagorol. Darllenodd Mr. Thomas y Gwynfydau ar y Mynydd, a'r rhan olaf o'r Llythyr at yr Ephesiaid; ac wedi myned drwy y rhanau arweiniol, tra yr oedd y difrifoldeb a'r defosiwn dyfnaf yn ffynu yn y dorf, ar ol anerchiad byr yn Gymraeg, traddododd Mr. Thomas ei bregeth yn Saesneg.

"Canlynwyd ef gan y Parch. D. Evans mewn anerchiad teimladol a phwrpasol iawn yn adrodd hanes ei ymweliad ef â Mr. Lloyd fel blaenor y *deputation*. Ar ddiwedd y cwrdd, agorwyd *subscription list* at y capel newydd, ac addawyd yn y man 312*p*. 19*s*. 6*c*.; ac erbyn nos Sul, yr oedd y tanysgrifiadau at y capel newydd wedi chwyddo i 414*p*. 4*s*. 6*c*. Os nad oedd y brwdfrydedd hwn a esgorai ar y fath barodrwydd i gyfranu, ac a gynnyrchai, yn hollol ddirybudd, y fath swm mor weddus oddiwrth ddynion, y rhan fwyaf o honynt yn llafurwyr, a ffermwyr, yn profi y tu hwnt i bob dadl fod y camwri yn cael ei deimlo yn ddwys yn y gymmydogaeth, nis gwyddom beth arall a wnaiff? A

synwn pa fodd y bydd i'r oracl Doryaidd o Gaerdydd esbonio y brwdfrydedd hwn.

"Daw addewidion o help i mewn o bell ac agos bob dydd. Nid oes tir etto wedi ei gael, ond hyderwn allu dyweyd yn fuan fod y llecyn i adeiladu capel o goffadwriaeth arno wedi ei gael. Dechreuwyd dydd Llun ar yr adeiladaeth goed.

"Soniwyd un diwrnod fod Mr. Thomas a'i briod i gael eu herlyn am y dywedid eu bod yn ymweled â phlas Alltyrodyn. Yr ydys yn methu hyd etto a gwneyd dim o hyn, ond dengys y cynnyg pa mor angherddol yw digofaint y Toryaid."

ERTHYGLAU ARWEINIOL Y WASG.

(O'R *South Wales Daily News*, CAERDYDD, TACH. 8, 1876.)

"Nid yw yn debyg y byddem yn sylwi mewn erthygl arweiniol fel hyn ar yr amgylchiad sydd wedi amddifadu cynnulleidfa o Annghydffurfwyr yn Sir Aberteifi o'u capel, a buasem yn gadael i'r adroddiadau eu hunain i ddweyd yr hanes gwarthus, oni bai fod ein newyddiadur cymmydogaethol Toriaidd wedi gweled yn addas i roddi cyfrif ffugiol a chamarweiniol iawn o'r amgylchiadau. Nid oes a fynom ni â'r dull yn yr hwn mae'r papyr yma yn lliwio ei adroddiadau, ac yn pentyru i fyny ei ddyfeisiau; wrth gwrs gellir amheu moesoldeb yr ymddygiad, ond tybiwn ei fod yn talu i wneyd hyny; ac os yw ei ddarllenwyr ar rai materion yn dewis chwedlau o flaen gwirioneddau, ffugiau o flaen ffeithiau, mae ganddynt hawl, wrth gwrs, i ddysgwyl y geiniogwerth pan maent yn talu'r geiniog. Ond pan mae cymmeriad gweinidog crefyddol gonest a pharchus yn cael ei enllibo, a phan mae ymgais annheilwng yn cael ei gwneyd i ddeffroi chwerwder dallbleidiaeth grefyddol yn erbyn corff cyfrifol o Gristionogion, yr ydym ninau hefyd yn honi hawl yn achos cyfiawnder a rhyddid crefyddol i brotestio yn erbyn yr annghyfiawnder gwaradwyddus ac annynol hwn. Mae'r adroddiad sydd wedi ymddangos yn y newyddiadur y cyfeiriwyd ato yn ymgais warthus ac ysgeler i niweidio cymmeriad gweinidog Cristionogol, i gamddarlunio ffeithiau, i olchi'r du yn wyn; ac mae bod y fath adroddiadau a hyn yn bossibl yn ddadguddiad o sefyllfa pethau sydd yn warth ar anrhydedd a moesoldeb y wasg gyhoeddus.

"Yn nyffryn y Teifi, ac ar yr ochr bellaf o'r afon enwog hono, sydd wedi ei hanfarwoli gan Doriaeth gyndyn y mwyafrif o'r tirfeddianwyr, mae pentref neu dreflan fechan a elwir Llwynrhydowen. Mae'n gorwedd rhyw bedair milldir oddiwrth dref fechan, brydferth Llandyssul, ac yma, am y cyfnod hir o dros gant a deugain o flynyddau, mae capel ymneillduol wedi sefyll, yn perthyn i'r enwad Undodaidd. Trwy y gwasanaeth crefyddol yn y capel hwn, mae llawer o genedlaethau o addolwyr wedi dysgu i gyflawni eu dyledswydd yn well ar y ddaear, ac wedi cael eu cyfarwyddo ar y ffordd sydd yn arwain i'r nefoedd; ac yn y fynwent sydd mewn cyssylltiad â'r capel, mae eu llwch yn gorphwys mewn tangnefedd, gan ddysgwyl adgyfodiad y cyfiawn. Nid yw yn rhyfedd fod serchiadau y gynnulleidfa yn ymglymu gydag anwyldeb

neillduol wrth y lle hwn sydd wedi ei santeiddio iddynt hwy gan gynifer o adgofion dymunol, a lle mae gweddillion eu hanwyliaid, a'u cyfeillion a'u hathrawon crefyddol yn gorphwys; ac etto, o'r man cyssegredig hwn, wedi ei santeiddio iddynt hwy a'u gweddiau a'u haddoliad, maent wedi eu troi allan mewn modd annhosturiol a chreulawn gan ormes tirfeddianydd Toriaidd, a'i oruchwylwyr oeddent yn hollol ewyllysgar a pharod i gario ei gynlluniau i weithrediad. Mae'r capel wedi ei adeiladu ar etifeddiaeth Alltyrodyn, perchenog presenol yr hon yw Mr. John Davies Lloyd, boneddwr ieuanc sydd newydd gyrhaedd ei oedran, a'r hwn sydd yn meddu ystâd eang yn Nghoredigion. Yn agos i gan' mlynedd yn ol, darfu i gyndad Mr. John Davies Lloyd, mewn modd sydd yn gwneyd ei ymddygiad yn hollol gyferbyniol i eiddo ei olynydd, ganiatau adnewyddiad *lease* y capel i'r gynnulleidfa. Mae y gyfraith yn gofyn ar farwolaeth ymddiriedolwyr fod ereill yn cael eu happwyntio yn eu lle, gan nad yw cynnulleidfa fel corfforiaeth yn gallu dal eiddo. Nid oedd cynnulleidfa Rhydowen yn ddysgedig yn y gyfraith, felly ni ddarfu iddynt appwyntio *trustees* pan y bu yr heu rai farw, ac mae arglwydd y tir a'i oruchwyliwr cyfreithiol wedi ystyried ei bod yn gysson â chyfiawnder a moesoldeb i gymmeryd mantais o'r esgeulusdod hwn, ac i droi yr addolwyr allan o'u capel. Mae amser ac amgylchiadau y weithred ormesol hon yn rhoddi iddi y cymmeriad o drais ac o ddallbleidiaeth falcisus. Credwn ein bod yn iawn wrth ddweyd nad oes un *trustee* wedi ei ethol oddiar yr appwyntiad gwreiddiol yn 1781, ac felly mae y capel wedi bod heb ymddiriedolwyr am fwy nag hanner canrif; ac etto, er fod ei hynafiaid a'i gynnrychiolwyr, trwy eu dystawrwydd a'u derbyniad cysson o'r ardreth, wedi pasio heibio yr esgeulusdod hwn ar ran y gynnulleidfa, mae Mr. John Davies Lloyd, a'i gyfreithiwr a'i oruchwylwyr, yn awr yn ddisymwth yn taflu allan y gymdeithas grefyddol hon o'u heu addoldy cyssegredig. Mae y llythyr yn yr hwn mae bwriad gormesol y tirfeddianydd yn cael ei osod allan yn esampl ddewisol o ddideimladrwydd a chreuloudeb. Mae y cyfreithiwr yn awgrymu, 'Fy mod wedi cael gorchymyn, ac yn bwriadu yn uniongyrchol i gymmeryd meddiant o'r capel uchod, ac yr wyf yn gwahardd unrhyw berson i drespasu yno.' Yna â yn mlaen i ddweyd 'Ei bod yn deg i chwi i grybwyll, gan fod y *trustees* i gyd wedi marw, ac nad oes un olynydd wedi ei appwyntio yn eu lle, fod yr eiddo yn myned yn ol yn feddiant i'r tirfeddianydd, yn erbyn yr hwn mae pawb personau yn drespaswyr.' Mae y rheswm cyntaf yma, fel mae cyfreithiwr Mr. Lloyd yn honi, yn ddigon i daflu allau y gynnulleidfa o'r capel yn yr hwn maent hwy a'u teidiau wedi addoli am gynifer o genedlaethau; os amgen, mae ganddo saeth arall yn ei gawell a fyddai yn gwbl mor ddinystriol yn ei heffaith. Dywed ef fod y capel wedi ei ddefnyddio at amcanion ereill heblaw addoliad crefyddol, a bod hyny yn drosedd ar ammodau y *lease*. Ymddengys fod derbynydd y llythyr (Mr. Jones) wedi gwrthdystio yn erbyn yr amcan a gynnwysid ynddo, ac yn credu fod yn rhaid fod y cyfreithiwr (Mr. Allen) yn cellwair, ac yn ceisio ganddo i ystyried angenion crefyddol a sefyllfa amddifad cynnulleidfa wedi colli yn ddisymwth ei hen dŷ addoliad. Yn ei lythyr

nesaf, dyddiedig Hyd. 30ain, 1876, mae Mr. Allen yn hyspysu Mr. Jones, 'Ni ddarfu i mi ddim meddwl y byddech yn ystyried fod llawer o duedd ynof fi i ofer-siarad,' ac mae'n dweyd ei fod 'yn berffaith ddifrifol, . . . ac yr wyf yn gobeithio y dygwch eich meddwl yn fuan i sylweddoli y ffaith.' Ac mewn perthynas i unrhyw ystyriaeth o sefyllfa y gynnulleidfa, ac o deimlad drosti, dywed, 'Yr wyf yn methu gweled beth sydd a fynwyf â'r gynnulleidfa.' Nid ydym yn amheu o gwbl ei fod yn methu gweled. Mae boneddigion fel Mr. Allen a'i feistr, Mr. Lloyd, yn gyffredin yn 'methu gweled' beth yw iawnderau moesol a chymdeithasol ereill, a beth yw eu dyledswyddau moesol a chymdeithasol tuag at ereill. Gallasai egwyddorion cyfiawnder a dynoliaeth gondemnio gweithred Mr. Lloyd, ond mae y rhai hyny tuallan ac uwchlaw y safle mae e' wedi ddewis, oblegyd ai nid oes ganddo ef ei ysgrifrwym gyfreithiol, fel oedd gan Shylock? Mae hono yn rhoddi i Mr. Lloyd y gallu, os gwna 'fe mor bell annghofio ei anrhydedd, i gau allan y gynnulleidfa auffodus hon o'u capel a'u mynwent, ac mae ei gyfreithiwr yn methu gweled fod gydag e' ddim i'w wneyd â'r gynnulleidfa, yn gymhwys fel yr oedd Shylock yn methu gweled fod gydag e' ddim i'w wneyd ag Antonio, ond tori ymaith bwys o'i gnawd—a pha agosaf i'r galon, melusaf i gyd y dial.

"Dyma hanes trist, ac i rai o'r partion, hanes cywilyddus, yr amgylchiadau sydd wedi cymmeryd lle mewn cyssylltiad â chapel Llwynrhydowen, a chan nad yw yr adroddiad o honynt yn llythyrau cyfreithiwr Mr. Lloyd yn ychwanegu dim at enw da Mr. Lloyd ei hunan, ac ereill sydd a wnelont â'r creulondeb hwn, mae papyr Toriaidd Caerdydd wedi cael ei ysprydoli i roddi lliw ffugiol i'r amgylchiadau, ac i ddyfeisio rhesymau dros y weithred ormesol yma o ddallbleidiaeth. Mae ymgais yn cael ei gwneyd, yn yr iaith fwyaf anweddaidd ac enllibus, i bardduo cymmeriad gweinidog yr eglwys hon—y Parch. W. Thomas,—yr hwn sydd yn cael ei osod allan 'fel person sydd yn desgrifio ei hunan fel y Parch. W. Thomas, Athraw yn y Celfyddydau,' a'r hwn y dywedir 'ei fod yn *Radical* o'r fath waethaf, ac yn ystyried pob un nad yw yn gweled yn addas i feddwl ac i weithredu gydag ef fel gelyn a ddylai gael ei lwyr ddinystrio.' Mae y rhai ydynt yn gyfarwydd â Mr. Thomas—ac y mae'n hollol adnabyddus trwy Ddeheudir Cymru—yn ei adnabod fel gweinidog yr Efengyl, duwiol, dysgedig, a pharchus, yn ddyn o gymmeriad dysglaer, ac o gyrhaeddiadau yn mhell uwchlaw y cyffredin, ac yn Athraw'r Celfyddydau o'r Brifysgol y perthyna iddi; ac etto, er mwyn rhoddi rhyw ymddangosiad o reswm dros ymddygiad creulawn a gwaradwyddus Mr. John Davies Lloyd a'i gynghorwyr Toriaidd, mae y papyr Toriaidd wedi cael gorchymyn i dywallt ar y fath ddyn holl phioleidiau ei iaith anweddaidd ac enllibus. Cyhuddir ef o fod wedi gwneyd 'ymgais fwriadol i sarhau cymmeriad y Meistr ieuanc hwn er mwyn amcanion politicaidd,' a'i fod wedi 'cynnal cyfarfodydd cyhoeddus yn y rhai y siaradai yn gryf yn erbyn Mr. Lloyd a thirfeddianwyr ereill;' a bod Mr. Lloyd mewn canlyniad 'yn gofidio fod unrhyw un sydd yn dal eiddo ar ei etifeddiaeth ef yn ymdrechu creu teimlad drwg yn ei erbyn yn mhlith ei gym-

mydogion a'i ddeiliaid.' Dyma'r cymhelliad a grybwyllir, ac ystyrir ef fel yn rheswm digonol gan y newyddiadur Toriaidd dros daflu y gynnulleidfa hon allan o'u capel. Nid yw yn cynnyg un prawf fod Mr. Thomas wedi ymddwyn felly; nid yw ond gwneyd yr honiad—dyna'r cwbl. Yn ychwanegol at y cyhuddiadau yma, mae yn beiddio gwneyd yr hyn sydd yn fwy anfaddeuadwy byth, sef sisial un o'r drwgliwiadau bryntaf yn erbyn Mr. Thomas neu rai o'i gynnulleidfa ag y gallai malais mwyaf dialgar ddyfeisio. Dywed mewn cyssylltiad â'r enllibau yma ar gymmeriad Mr. Thomas, fod tân wedi cymmeryd lle yn nhŷ goruchwyliwr Mr. Davies Lloyd, a bod y swyddfa wedi ei dinystrio, ond fod y papyrau a berthynent i Mr. Lloyd wedi eu hachub. Mae'n sicr y bydd i'r awgrymiad maleisus hwn, sydd wedi ei ddwyn i mewn heb unrhyw reswm na gweddeidd-dra, ymddangos yn chwithig i deimlad dynol a gonest darllenwyr y wasg Doriaidd. Nid yw arfau wedi eu gwenwyno yn cael eu defnyddio mewn rhyfel gan neb ond y barbariaid mwyaf anwaraidd. Yn ymrysonau politicaidd cenedloedd gwareiddiedig, edrychir ar y defnydd o awgrymiadau bryntion a chyhuddiadau gwenwynig gydag atgasrwydd cyffredinol. Yn sicr mae yn rhaid fod Mr. Davies Lloyd yn cashau o'i galon amddiffyniad fel hwn sydd yn tueddu mor bell i ddinystrio ei ddybenion ei hun.

"Mae ein cymmydog Toriaidd yn ymddangos yn bryderus i wneyd hwn yn gwestiwn o enw da a chymmeriad rhwng y ddau brif berson yn yr ymdrafodaeth hon—Mr. John Davies Lloyd a'r Parch. W. Thomas. Carem weled y cwestiwn yn cael ei dreio ar yr agwedd yma o hono, ac i holl boblogaeth dyffryn Teifi i fod yn farnwyr. Mor isel ag y ceisia dynu i lawr gymmeriad Mr. Thomas, mae y papyr Toriaidd yn ceisio derchafu yn uchel gymmeriad Mr. Lloyd fel 'boneddwr ieuanc mor addawol,' &c. Bydded felly. Nid ydym yn tueddu yn bresenol o leiaf i edrych ar y mater fel cwestiwn personol rhwng Mr. Thomas a Mr. Lloyd, ond ar dir cang cyfiawnder a phriodoldeb moesol. Etto gallwn adgofio ein cymmydog ein bod yn adnabod arglwyddi Toriaidd Glan Teifi, ac yr ydym hefyd yn adnabod Mr. John Davies Lloyd, ac mewn canlyniad yn barod i ganiatau nad yw arglwydd Alltyrodyn ddim yn waeth na'r mwyafrif o arglwyddi Toriaidd ar lanau y Teifi, ac feallai nad yw efe ddim llawer gwell. Mae'n well o lawer i'r papyr Toriaidd i gadw ei dduwiau yn gudd oddiwrth olygon y cyhoedd. 'Does gyda ni yr un gwrthwynebiad i ddyn—i addoli ei eilun, ond iddo beidio ei wisgo á phriodoleddau nefol; yn amgen, fe ddaw rhywun heibio i dynu ymaith yn ddidosturi y gwisgoedd allanol, a dadguddio yr eilunddiw yn ei holl hagrwch a'i wrthuni."

(O *Faner ac Amserau Cymru*, Dinbych, Tach. 8, 1876.)

"Y mae hi yn ffaith ddiamheuol fod ysbryd erledigaethus yn ffynu i raddau helaeth yn y dyddiau hyn yn mhlith tirfeddianwyr a chlerigwyr yr Eglwys Sefydledig, yn enwedig yn y dosparthiadau gwledig yn Lloegr. Ymddengys fod y naill a'r llall fel pe byddent wedi ymgynghreirio á'n gilydd i geisio stampio Ymneillduaeth a Rhyddfrydiaeth allan o'r wlad; a defnyddir y tirfeddianwyr yn fynych fel offerynau

dialedd gan y clerigwyr. Rhoddwyd desgrifiad dychrynllyd o'u gweithrediadau erledigaethus yn nghyfarfodydd diweddaf Undebau yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr; ac y mae genym le i gredu fod yr un ysbryd drwg yn ymweithio yn awr mewn rhai manau yn Nghymru. Beth ydyw yr hyn sydd newydd gymmeryd lle yn Llwynrhydowen, yn sir Aberteifi—onid un o'i amlygiadau? Nis gwyddom beth arall a allasai gynhyrfu y tirfeddianydd ieuanc, Mr. John Davies Lloyd, i fwrw y gynnulleidfa allan o'r capel uchod sydd ar ei etifeddiaeth, ond sêl dallbleidiol dros yr Eglwys Sefydledig, ac awydd angerddol i ddifodi Ymneillduaeth o'r tir, os gall efe. Nid yw y rhesymau a roddir ganddo dros y weithred, mewn un modd, yn ddigon i'w chyfiawnhau; ac os nad oes ganddo ef lawer amgenach rhesymau i'w dwyn yn mlaen a'u taflu fel cochl i geisio cuddio ei gwarth, gallwn ei hysbysu y bydd enw John Davies Lloyd yn cael ei drosglwyddo i lawr i'r oesoedd dyfodol fel un o erlidwyr y ganrif hon; a bydd ei blant, a'i ŵyrion, a'i orŵyrion, os na dderfydd y coffa o'i enw oddiar y ddaear cyn hyny, yn cywilyddio i arddel eu perthynas ag ef 'hyd y nawfed âch.'"

* * * * *

"Bu Mr. Thomas yn gwasanaethu fel gweinidog yn y capel am ugain mlynedd, ac y mae yn dra chymmeradwy gan yr eglwys a'r gynnulleidfa; ac nid hawdd ydyw cael dyn mwy cywir, cydwybodol, a dylanwadol nag ydyw efe. Y mae yn Ymneillduwr egwyddorol, ac yn Rhyddfrydwr trwyadl, ac yn gwneuthur defnydd o bob cyfleusdra i hyfforddi ac addysgu ei gydwladwyr yn y ffydd Ryddfrydig; a bu yn dra ffyddlawn, ac yn hynod o lwyddiannus. Cynnaliodd lawer o gyfarfodydd cyhoeddus yn y gwahanol ardaloedd o fewn y sir hono i ddadleu egwyddorion Rhyddfrydig; a phan y byddai y cynnulleidfaoedd yn fawrion, fel yn ystod etholiad 1868. taflai ei gapelydd yn agored, gan nad oedd yn bossibl i gael adeiladau yn y wlad a gynnwysent hanner y tyrfaoedd. Y mae y Mr. Lloyd presenol yn Eglwyswr selog, ac yn Dory o'r ffasiwn fwyaf Toryaidd:—ai tybed mai oddiar ei sêl yn y ddau gymmeriad hwn y darfu iddo, fel y credir, gyflawnu y weithred dan sylw? Gwasanaethwyd y rhybudd ar Mr. Thomas ar ddydd Sadwrn, Hydref yr 28ain; a bu raid i'r gynnulleidfa, a drowyd allan yn ddisymwth ac yn ddideimlad, gynnal eu gwasanaeth dranoeth ar y ffordd fawr. Os oedd yr yswain ieuanc, yn mhoethder ei sêl Eglwysig a Thoryaidd, yn meddwl y gallai, trwy un weithred orthrymus fel hon, lethu corph bychan o Annghydffurfwyr, rhaid ei fod erbyn hyn wedi ei lwyr argyhoeddi o'i gamgymmeriad. Ymledodd y newydd am ei ymddygiad caled gyda chyflymdra mawr, a chynnyrchodd ddigofaint angerddol yn mhlith pob graddau o'r boblogaeth; ac yn lle cynnulleidfa o tua 300 neu 350 oddi mewn i'r capel, galwyd ar y gweinidog a fwriasid allan i anerch torf o 3,000 o bobl o'r tu allan, oeddynt wedi dyfod yno i amlygu eu cydymdeimlad ag ef, ac â'r gynnulleidfa hefyd, ac anghymmeradwyaeth o'r weithred oedd newydd gael ei chyflawnu."

Yr ydym yn addef ei fod yn bossibl fod seiliau i'r ddau reswm a enwir dros y bwriad allan, ac felly na ddarfu i Mr. Lloyd ond yn

unig weithredu yn ol fel yr oedd ganddo hawl gyfreithiol. Ni fynem er dim briodoli iddo unrhyw ymddygiad anghyfiawn nac anghyfreithlawn. Ond hwyrach nad ydyw efe mor anwybodus fel na wyr fod llawer iawn o bethau, o fewn cyfraith y tir, nas gall dyn eu gwneuthur heb syrthio dan gondemniad moesol ei gymmydogion; ac un o'r pethau hyny yn ddiamheu ydyw y defnyddiad o sefyllfa a chyfleusderau tirfeddianydd i erlid y rhai a ddygwyddant wahaniaethu oddiwrtho ef ar faterion gwladol neu grefyddol—materiou ag y mae ganddynt cystal hawl ag yntau i ffurfio barn arnynt drostynt eu hunain. Gall y gynnulleidfa a fwriwyd allan gan Mr. Lloyd, yn ol fel y clywsom, olrhain eu dechreuad mor bell yn ol ag amser y Weriniaeth. Gan hyny, dylasai cariad at hynafiaeth—yr hyn, meddir, ydyw yr unig beth prydferth yn nghredo y Toryaid—atal Ceidwadwr selog rhag amddifadu corph o bobl a all hawlio yr anrhydedd a berthyn i hynafiaeth. Modd bynag, hwyrach fod yr ystyriaeth yma wedi cynnyrchu gelyniaeth yn ei feddwl yn ei erbyn:—daeth yr achos bychan yn Llwynrhydowen i fodolaeth yn ystod amser Oliver Cromwell, a dichon fod Mr. Lloyd wedi cofio dygwyddiadau hynod teyrnasiad Siarl I. Beth bynag, y mae yr olwg ar gorph gofidus o addolwyr yn cynnal gwasanaeth yn yr awyr agored, wedi eu gyru allan o gysgod capel, heb funyd o rybydd, yn dwyn ar gof i ni hen ddyddiau y Stuartiaid. Dymunem ar Mr. Lloyd a'i gyfeillion ystyried pa beth y maent yn ei wneyd trwy ymddwyn fel hyn. Dylent ddeall eu bod yn arddangos ysbryd gormesol a dideimlad, ac yn darostwng eu hunain yn ddirfawr yn ngolwg y wlad yn gyffredinol. A byddai yn dda iddynt gofio fod yr yspryd hwn yn sicr, yn fuan neu yn hwyr, o gynhyrfu ysbryd arall, trechach a chryfach nag ef ei hun, i ddyfod allan i'w wrthwynebu. Nid ydyw yr amser ddim yn mhell pan yr amddifadir y tirfeddianwyr o'r gallu sydd ganddynt i boeni a gorthrymu dynion sydd yn coleddu syniadau gwladol neu grefyddol gwahanol i'r eiddynt hwy eu hunain, pan y mae ganddynt cystal hawl i'w cofleidio ac i ddadleu drostynt, ag sydd gan y boneddigion hyn i wneyd felly â'u syniadau eu hunain—a da fyddai iddynt ddeall hyny, a'i ystyried mewn pryd."

"Appwyntiodd y gynnulleidfa a ymgyfarfyddai yn nghapel Llwynrhydowen ddirprwyaeth i ymweled â'r etifedd ieuanc a enwyd, i ofyn ei ganiatad i ddefnyddio y capel nes yr adeiledid un newydd. Ond rhoddwyd ar ddeall, meddir, i'r ddirprwyaeth fod Mr. Lloyd wedi gwneyd ei feddwl i fyny na byddai iddo byth ganiatau i'r gweinidog presenol, y Parch. William Thomas, ddefnyddio y capel; ond pe y y derbyniai yr eglwys weinidog a enwid gan Mr. Lloyd, y byddai eu capel at eu gwasanaeth fel arferol! Pwy erioed a ddysgwyliodd glywed y fath sylw plentynaidd yn disgyn o enau neb yn y ganrif hon. Yr ydym yn tosturio wrth anwybodaeth a balchder y dyn, ac yn wir wrth ei haerllugrwydd cywilyddus. Mr. John Davies Lloyd yn wir, i bennodi gweinidog i'r eglwys hon! Edrychir ar yr ymgais hwn o'i eiddo i ymyryd â hawl cynnulleidfa i ddewis ei gweinidog ei hun, ac i gau genau dyn sydd wrthwynebwr politicaidd iddo, gyda'r

digofaint a'r ffieidd-dod a haeddai y fath ymddygiad, ac fel ymgais i roddi dyrnod farwol i ryddid gwladol a chrefyddol. Ond meiddiwn ddywedyd na dderbynia yr eglwys byth y fath ammod gorthrymus; obegyd y mae eu hymlyniad wrth ei gweinidog a'i hawliau crefyddol yn annhraethol rhy gryf."

(O'R *Tyst a'r Dydd*, MERTHYR, TACH. 10, 1876.)

"Ychydig feddyliodd Mr. Lloyd, perchenog ystâd Alltyrodyn, Aberteifi, a'i oruchwylwyr erlidgar, y cynhyrfasai y nodyn bychan hwnw anfonwyd brydnawn ddydd Sadwrn, bythefnos yn ol i'r Parch. W. Thomas, M,A., yr holl wlad drwyddi, a'i fod yn gwneyd gweithred a groniclid gan newyddiaduron y deyrnas, er gwarth a chywilydd i'r teulu, ac i Doriaeth. Yn ofer y ceisia y Wasg Doriaidd ddarbwyllo dynion nad oedd a fynai cau allan gynnulleidfa Llwynrhydowen o'r capel, dair blynedd cyn dyfod y *lease* i ben, ag Ymneillduaeth, am mai Undodwyr ydynt. Dywedant eu bod mor ymneillduol oddiwrth yr Enwadau ag yw'r Enwadau oddiwrth yr Eglwys Sefydledig. Os ydynt yn gwahaniaethu oddiwrth yr Enwadau, y maent hwy a'r Enwadau yn cymmeryd yr un tir yn eu perthynas â'r Eglwys Wladol. Wedi gweled effaith y weithred ar y wlad, ceisia Mr. Lloyd a'i gyfeillion amddiffyn eu hunain; ond wrth wneyd hyny, gwnant eu hachos yn waeth nag o'r blaen. Cyhuddant y gweinidog o gynnal cyfarfodydd politicaidd yn y capel yn groes i ddarbodion y *lease*, a'i fod yn y cyfarfodydd hyny, ac mewn lleoedd ereill, wedi defnyddio pob cyfleusdra o fewn ei gyrhaedd i warthruddo Mr. Lloyd; ac mai amcan Mr. Lloyd ydyw ei rwystro i wneyd hyny ar ei dir ef, beth bynag. Dyma ymyraeth â rhyddid dyn i draethu ei farn ar faterion gwleidiadol mewn gwlad rydd. Dywed Mr. Lloyd ei fod yn foddlon i'r eglwys ddefnyddio y capel fel o'r blaen, ond iddynt ollwng y gweinidog presenol i ffwrdd; ac â mor bell a nodi iddynt y gweinidog a hoffai efe weled yno, ac os mynant hwnw, pob peth yn dda. Pa beth nesaf, tybed? A ydyw eglwys i fwrw ymaith ei gweinidog, am nad yw wrth fodd calon perchenog y tir o dan y capel? Os ydyw Mr. Lloyd yn gweled cyssondeb yn rhywbeth gwerth iddo drafferthu i'w fabwysiadu yn ei drafodaeth ag Ymneillduwyr, dysgwyliwn na fydd iddo ef adnewyddu y *lease* i'r eglwys yn Llwynrhydowen, os gofynant am hyny, ac na fydd iddo ganiatau *lease* i neb i godi capel ar ei ystâd, heb ddarbodaeth ynddi, fod yr eglwys i fwrw ymaith ei gweinidog pan wel efe yn dda, a chymmeryd atynt y neb y gwel efe yn dda ei gymmeradwyo iddynt. Pa beth a ddaw o Annibyniaeth yr eglwysi, os oes erthygl fel hon wedi ei chyssylltu â chredo Doriaidd, ac i gael ei gweithio allan gan dirfeddianwyr Toriaidd? Eithafion beiddgarwch a haerllugrwydd ydyw i berchenog y tir o dan y capel, wrthod i'r eglwys wasanaeth crefyddol ei gweinidog, am iddo draethu golygiadau ar wleidyddiaeth croes i'w eiddo ef. Nis gwyddom; ond os dywedodd y gweinidog yn mhoethder cynhwrf etholiadol, rhyw bethau cryfion am y Toriaid, ac am Mr. Lloyd wrth ei enw, paham y dialai ar yr eglwys? Ond myn Toriaeth mai iddi hi y perthyn dial, ac y tal yn ei ffordd ei hun."

(O'R *Christian Life*, TACH. 11, 1876.)

"Os yw gormes yn cyfranu dysgleirdeb i gymmeriad dynion doeth, ac os yw triniaeth gywilyddus yn ysgol ar hyd yr hon y codir meddyliau uchelfrydig i uchelfanau gogoniant moesol, yr ydym yn hyderu y gwna ein brodyr Undodaidd yn Nghymru,—y rhai ydynt wedi eu troi allan o'u capel mewn modd mor sydyn ac annysgwyliadwy, ac wedi eu gwahardd i osod troed mwyach tufewn i'w mynwent—y gwnant ddyoddef eu profedigaeth chwerw gyda gwroldeb ac ysbryd Cristionogol. Mae hyn yn achos arall lle y gofynir am fesur mawr o ymostyngiad Cristionogol, yr hwn yn y diwedd sydd yn sicr o gyrhaedd ei wobr deilwng o anrhydedd.

"Yr ydym yn dechreu gofyn i ni ein hunain, pan yn clywed am greulonderau mewn gwledydd dwyreiniol, ac am weithrediadau gorthrymus mewn siroedd gorllewinol, a ydym yn byw yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg sydd yn ymffrostio yn ei rhyddid a'i gwareiddiad; oblegyd mae'r erledigaeth hon yn Nghymru yn ein hadgofio yn effeithiol iawn am ddygwyddiadau a gymmerasant le er ys dau cant o flynyddau yn ol yn Hungary, Poland, a Lloegr, y rhai y mae pawb yn awr yn gondemnio. Beth bynag a ddywedir i'r gwrthwyneb, fel mae'r amgylchiad hwn yn dadblygu ei hun mae'n gwisgo agwedd neillduol o ddialedd, a gormes. Dywedir fod y peth hefyd yn gynllun plaid boliticaidd, ydynt yn dymuno trosglwyddo y rhan hon o Ddeheudir Cymru i'w rhengoedd eu hunain. Yr ydym yn falch yn wir nad yw crefydd ddim yn atebol am y weithred annheilwng hon. Wrth wneyd y cyhuddiad difrifol hwn yn erbyn y tirfeddianydd a'i gyfeillion, yr ydym yn gwybod y gellir eu hamddiffyn trwy ddweyd nad ydynt wedi gwneyd dim ag sydd yn groes i'r gyfraith. Yr ydym yn amheu a fyddai'r weithred greulawn yma o daflu cynnulleidfa allan o'u capel, cyn terfyniad y *lease*, yn debyg o gael ei chyfiawnhau o flaen llys barn. Nid yw yn annhebygol na weinyddai y barnwr gerydd llym ar y rhai fu yn achos o'r fath beth. Ac hefyd pan yr aeth cenadwri at y tirfeddianydd i ofyn a fyddai yn caniatau i'r gynnulleidfa am ychydig suliau gynnal eu haddoliad lle yr oedd eu teidiau wedi addoli am gant a deugain o flynyddau, gomeddwyd hyny iddynt yn y modd mwyaf sarhaus a diystyrllyd.

"Mae yn amlwg ar wyneb y drafodaeth yma nas gall y tirfeddianydd ennill dim trwy gael meddiant o'r capel a'r fynwent. Ni wna neb gynnyg i'w cymmeryd. Saif y capel yn ddiddefnydd, yn golofn o elyniaeth chwerw boliticaidd, ac yr ydym yn ofni y deffroir teimladau annedwydd yn mynwesau pawb a basiant heibio iddo.

"Os dysgwylid y byddai'r fath weithred yn ennill i'r parti politicaidd a'i cyflawnodd, mae'n rhaid eu bod yn ynfyd. Nis gallwn ddychymygu dim a'u condemnia yn fwy sicr yno, ac yn mhob rhan o'r wlad fel dynion creulawn, annghyfiawn, a gormesol—gwrthwynebwyr athrylith ac yspryd ein hoes. Mae'n ennill mawr i'r blaid Ryddfrydig fod ganddynt y fath wrthwynebwyr annoeth, na wyddant sut i ffrwyno eu teimladau tuag at weinidog a chynnulleidfa a ddichon fod yn gwahaniaethu oddiwrthynt yn eu golygiadau,

"Mae un ddyledswydd sydd yn gorphwys yn sicr arnom bawb sydd yn mwynhau y meddiant tawel o'n lleoedd addoliad, a'r rhai nid yw yn debyg a flinir byth gan wrthwynebwyr politicaidd, nac unrhyw fath arall o wrthwynebwyr,—mae'n rhaid i ni gynnorthwyo ar unwaith ein cyfeillion yn Nghymru—eu cynnorthwyo yn ddioedi ac yn hael i gael tŷ addoliad newydd. Yr ydym yn falch i glywed y gellir cael dernyn o dir yn rhydd-feddiant yn agos i'r hen gapel. Mae'r aelodau wedi gwneyd eu goreu wrth danysgrifio £400 yn y man. Meddyliwn nad ydym yn camgymmeryd wrth gredu y daw cyfraniadau, nid yn unig o'n heglwysi ni, ond o eglwysi ereill, yn ddangoseg o gydymdeimlad a'r bobl erlidiedig, ac hefyd o ffolineb ac oferedd y fath weithrediadau ag y mae wedi bod yn ddyledswydd boenus arnom i alw sylw atynt."

(O'R *Ferret*, ABERTAWE, TACH. 11EG, 1876.)

"MAE trigolion Cymru mor gyfarwydd ag erledigaethau oddiar achosion politicaidd yn Ngheredigion, fel nad oes neb yn synu pan y clywa am yr anghyfiawnder a'r creulondeb mwyaf amlwg. Ystyr y cwbl yw hyn, fod perchenogion y tir yn honi hawl nid yn unig i'r hyn sydd yn perthyn iddynt yn ol cyfiawnder, ond hefyd i eneidiau dynion—i'w hegwyddorion crefyddol a gwleidiadol. Mewn gair, er mwyn cael ei ddewis i ddal fferm mewn rhai rhanau o Sir Aberteifi, fe ymddengys bod yn rhaid i'r deiliad i gymhwyso ei hun i fympwyon ei feistr tir, ac i fod o'r un grefydd ac egwyddorion politicaidd ag ef. Os na all e' wneyd hyn, er y dichon iddo godi enydau toreithiog ar ei faesydd mae'n rhaid iddo symud i fan arall.

Yn mhlith yr engreifftiau lluosog sydd wedi dygwydd yn ddiweddar o'r natur yma, mae genym yn awr yr hanes fod gweinidog Undodaidd a'i gynnulleidfa wedi eu troi allan o'u capel yn agos i Llandyssul."

Ar ol crybwyll yr amgylchiadau mae yr ysgrifenydd yn sylwi ar yr adroddiad o'r drafodaeth a ymddangosodd yn y "*Western Mail*." "Dywed y newyddiadur Toriaidd," meddai, "'nad yw perchenog y tir ddim yn cael ei ddylanwadu mewn un modd gan unrhyw gymhelliadau politicaidd neu grefyddol.' Gall hyn fod yn wir fel mae a fyno a chrefydd; ond i'n tyb ni nis gall fod un amheuaeth nad yw'r weithred wedi deilliaw o elyniaeth yn erbyn Mr. Thomas am resymau gwleidiadol. Dywed y newyddiadur Toriaidd yn mhellach, mai yr unig achos oedd, fod nid yn unig gyfarfodydd politicaidd yn cael eu cynnal yn y capel, ond hefyd gyngherddau a phethau o'r fath, yn erbyn ammodau y *lease*. Yn mhellach hefyd mae yr un papyr yn dweyd nad oedd *gorfodaeth* ar y gynnulleidfa i fyned i'r brif ffordd i addoli, *oblegyd fod yr allweddi yn cael eu cadw gan rai a berthynent i'r capel*. Yn sicr nid yw hyn ddim yn annhebyg i foesoldeb arferol y papyr Toriaidd. Mae y *Mail* yn credu fod *meddiant* yn ffurfio'r rhan bwysicaf o'r gyfraith, a thra yn cymmeradwyo y troad allan, mae mewn effaith yn cynghori'r bobl i beidio gofalu am orchymyn Mr. Allen fel mae'n cael ei osod allan mewn rhai ymadroddion o'i lythyr, sef y byddai pob person, a fyddai yn trespasu ar ol cael *notice* i beidio, i gael ei erlyn yn ol y gyfraith.

"Trafodaeth ryfedd, onide, ac wedi ei gwneyd yn waeth gan y papyr Toriaidd yn ei ymgais i'w hamddiffyn â chymmaint o resymeg druenus. Mae gohebydd y *Mail*, wrth geisio sarhau corff parchus o Gristionogion, trwy omedd iddynt yr hawl i fod yn Anghydffurfwyr yn dweyd: 'Yr oeddwn yn falch i gael allan ar fy nyfodiad i'r lle, nad oedd un gynnulleidfa anghydffurfiol yn bodoli yno, fel yr ydym ni yn deall anghydffurfiaeth yn Nghymru, ac nad oedd un gynnulleidfa wedi ei throi allan o gwbl. Cefais allan fod y gynnulleidfa dan sylw yn gorff Undodaidd yn cyfarfod yn Llwynrhydowen. Nid oedd yn un o'r cynnulliadau Protestanaidd anghydffurfiol ag mae Cymru yn awr ac wedi bod mor falch o honynt. Na, yr oedd yn gorff yn ymneillduo cymmaint oddiwrth anghydffurfiaeth ag mae Ymneillduwyr yn ymneillduo oddiwrth yr Eglwys Sefydledig. Ond cefais gryn foddhad wrth weled nad oedd un bwriad i droi allan o'u capel y fath gorff a hwn. Er nad yw Undodiaeth yn boblogaidd yn Nghymru, ac edrychir arni yn gyffredinol gydag atgasrwydd, yr oedd yn dda genyf wybod nad oedd un annghyfiawnder wedi ei fwriadu i'w choleddwyr.'

"Mae yn rhaid fod gan yr asyn a ysgrifenodd yr uchod farn uchel am allu meddyliol ei ddarllenwyr, oblegyd tra yn gosod o'u blaen y canlyniadau o drespasu ar ol y *notice*, mae mor hyf a dweyd ei fod wedi cael allan ar ol myned yno, nad oedd un gynnulleidfa wedi ei throi allan o gwbl. Ond mae ceisio gwrthbrofi y fath ynfydrwydd sydd yn gwrthbrofi ei hunan mor alluog yn hollol ddiangenrhaid.

"Gall fod agweddau cyfreithiol yr achos yn flafr Mr. Thomas a'r gynnulleidfa neu beidio. Nid ydym yn proffesu penderfynu ar hyny. Mae'n ddigon i ni wybod fod gweinidog a chynnulleidfa wedi eu troi allan gan ddynion sydd yn cymmeryd mantais front a chowardaidd o ammodau *lease* oedd bron myned allan. Yr yspryd annoddefgar erledigaethus sydd yn ei wneyd mor niweidiol i foesoldeb cyhoeddus, ac mor atgas a ffiaidd yn mhob modd i feddwl anrhydeddus. Mae'n cynnwys fod rhyw fath o hawl etifeddiaethol gan arglwydd y tir ar gydwybodau dynion, a bod eneidiau dynol ac erwau llydain yn ciriau cyfystyr yn ngolwg gorchwylwyr a thirfeddianwyr ydynt yn myned i eithafion dros eu plaid."

(O'r *Inquirer*, Llundain, Tach. 18, 1876.

Ar ol rhoddi hanes y drafodaeth, dywed: "Nid oes angen myned i mewn i'r olwg gyfreithiol ar y mater yma; nis gellir cyfiawnhau y weithred ar dir ymddygiad anrhydeddus a thrafodaeth deg rhwng dyn a dyn. Os oedd Mr. Lloyd yn dewis i ymddiriedolwyr newydd i gael eu happwyntio, fe ddylai fod wedi tynu sylw at hyny, a gallesid appwyntio rhai newydd yn unol â gweithred seneddol sydd wedi ei phasio yn nheyrnasiad Victoria, heb fyned i'r *Court of Chancery* o gwbl. Nis gwyddom yn mha fodd mae ammodau y brydles wedi eu troseddu. Tebyg fod Mr. Thomas a'i gynnulleidfa wedi gwneyd defnydd o'r capel ar gyfer cynnulliadau cymdeithasol, addysgawl, a gwleidiadol, fel mae'n dygwydd yn aml yn Nghymru. Ond gan nad beth am hyny, dylai Mr. Lloyd fod wedi rhoddi cyfleusdra i'r gweinidog a'r gynnulleidfa i eglur-

hau neu gyfiawnhau unrhyw ymddygiad ag yr achwynai o'i herwydd. Ond nid oes dim o'r fath wedi ei wneyd. Ni roddir manylion o'r pethau yn y rhai mae'r gynnulleidfa wedi troseddu. Mae Mr. Lloyd yn cymmeryd arno ei hun y cyfrifoldeb pwysig o benderfynu yr achos drosto ei hun, ac mae'r gynnulleidfa a'r gweinidog yn cael eu troi allan yn ddidosturi i'r awyr agored. Mae Mr. Thomas a'i gyfeillion yn gwneyd yn iawn wrth droi ymaith oddiwrth ystâd Mr. Lloyd. Gydag ef nis gallant ddyfod i un cytundeb. Mewn blynyddoedd i ddyfod, pan y bydd profiad ac amser wedi goleuo ei feddwl, gadewch i ni obeithio y bydd yr yswain ieuanc hwn yn teimlo cywilydd am ei weithred, fel yr ydym yn hyderu ac yn credu y teimla ei gymmydogion, tirfeddianwyr ereill y sir, ar yr adeg bresenol.

"Bydd yn rhaid i'r Parch. W. Thomas gael capel newydd, ac mae gan Undodiaid Lloegr a Chymru ddigon o gyfoeth ac yspryd i adeiladu un iddo. Am ugain mlynedd mae wedi gweithio gydag ymlyniad diorphwys yn siroedd Caerfyrddin a Cheredigion. Yr oedd Mr. Thomas yn fyfyriwr llwyddianus iawn yn Ngholeg Caerfyrddin, ac wedi hyny yn Mhrifysgol Glasgow. Mae'n ysgolhaig clasurol o'r dosparth blaenaf, ac yn brif athraw Ysgol Ramadegol yn Llandyssul, yr hon, trwy ei sel a'i allu, sydd wedi dyfod yn un o'r ysgolion mwyaf poblogaidd o'r natur yn Neheudir Cymru. Mae yn bregethwr difrifol a hyawdl, yn ddiwyd yn gwneyd daioni, ac yn hyrwyddo egwyddorion rhyddfrydig. Mae wedi ennill parch ac ymddiried ei gymmydogion a phawb oddiamgylch iddo. Pa un a ydyw wedi cynhyrfu anfoddlonrwydd Mr. Lloyd neu ei oruchwylwyr, nid oes chwant arnom i ymofyn. Yr ydym ni sydd yn gydnabyddus â'i gymmeriad brwdfrydig a hynawsedd ei natur yn gwybod mor deilwng yw o gydymdeimlad a chefnogaeth o dan brofedigaethau presenol ei fywyd gweinidogaethol, a'r cyfryw yr ydym yn dra sicr y derbynia ar raddfa helaeth."

(O'r *Goleuad*, Dolgelley, Tach. 11, 1876.)

"Mae etifedd ieuanc Llwynrhydowen, Ceredigion, wedi penderfynu enwogi ei hun yn ngolwg ei wlad, ac y mae ei feddwl wedi disgyn ar gynllun tra effeithiol i'r perwyl hwnw—a barnu wrth y sylw y mae wedi gael eisoes yn newyddiaduron y deyrnas. Ymddengys fod ar etifeddiaeth y boneddwr ieuanc,—yr hwn, boed hyspys, sydd Eglwyswr a Thori,—yn y lle a enwyd, gapel Undodaidd, yr hwn a ddelid dan brydles o gant ond un o flynyddau. Mae gweinidog y capel, y Parch. W. Thomas, M.A., yn gysson â'i broffes Ymneillduol, yn Rhyddfrydwr selog hefyd, ac wedi arfer sefyll ar flaen y fyddin bob amser y byddai galw am hyny. Mae hyn o achyddiaeth yr yswain ieuanc John Davies Lloyd, a'r Parch. W. Thomas, yn ddigon o agoriad i ddirgelwch yr hyn sydd yn dilyn.

* * * *

"Nis gwyddom beth yw syniad John Davies Lloyd, Ysw., am ryddid a chydwybod. Feallai nad ydyw wedi blino ei ymhenydd erioed yn nghylch y fath eiriau. Digon iddo ef—sydd yn ddim ond Eglwyswr a Thori—yw deall fod y Parch. W. Thomas yn gwahaniaethu oddi-

wrtho mewn barn ar grefydd a gwleidyddiaeth, a bod gallu y gyfraith wladol yn ei law ef. Mae Mr. Lloyd, mae'n debyg, fel llawer o'r un gred ag ef o'i flaen, wedi gweithredu yn ol ei deimlad naturiol, heb ymdrafferthu dim yn nghylch cydwybod. Yr un yw Toriaeth ag erioed, a buasai yn Nghymru heddyw gynnulleidfaoedd ereill yn yr un cyflwr â chynnullefdfa Llwynrhydowen oni buasai fod rhywbeth trech nâ'i hewyllys hi."

PREGETH Y PARCH. WM. THOMAS, M.A., MEWN CYFARFOD YN YR AWYR AGORED, DYDD SUL, TACHWEDD 5ED, 1876.

Ar ol i Mr. Thomas ddarllen rhan o'r bregeth ar y mynydd, a phregethu yn Gymraeg, anerchodd y cyfarfod yn Saesneg. Gan fod cynnrychiolwyr y *South Wales Daily News* a'r *Western Mail* yn bresenol, cymmerasant adroddiad cyflawn o honi fel ei traddodwyd, ac mae a ganlyn yn ymgais i osod yr adroddiad mewn diwyg Gymreig. Y testyn oedd Matt. x. 28. Dywedodd Mr. Thomas : Sylwaf yn gyntaf fod fy sefyllfa yma heddyw yn un boenus iawn i mi, gan fod yr amgylchiadau mor rhyfeddol. Mae genyf er hyny, i ryw fesur, eich cydymdeimlad i gyd. Maddeuwch i mi am unrhyw golliadau yn fy ngwaith cyhoeddus heddyw, oblegyd er fod yr ysbryd yn foddlawn, mae y corff yn wan. Mae llythyrau o gydymdeimlad wedi dylifo i mewn o bob cyfeiriad, yr uchel a'r isel, ac oddiwrth bobl o argyhoeddiadau crefyddol gwahanol iawn. Ymddengys fod y teimlad yn gyffredinol, nad yw hwn ddim yn gwestiwn i ni yn unig, ond yn perthyn i bob dosparth o Annghydffurfwyr yn ddiwahaniaeth ; ie, yn gwestiwn o ryddid crefyddol hyd y nod i Eglwyswyr eu hunain. Mewn perthynas i lythyrau o gydymdeimlad, mae fy llogellau yn llawn o honynt. Ar ol ystyriaeth bryderus, ac wedi ymgynghori â'r awdurdodau uwchaf yn y wlad, yn gystal ag â chyfeillion ereill, yr ydym wedi penderfynu i beidio dwyn y mater o flaen llys cyfraith. Sicrheir i ni gan awdurdod gyfreithiol uchel, y byddai'r ddedfryd yn sicr o fod yn ein ffafr, ac y penderfynid, hyd y nod mewn llys barn, fod y capel yn eiddo i ni hyd derfyniad y brydles; ond mae y cyfnod o dair blynedd mor fyr, ac ar derfyn yr amser hwnw, cawsai dialedd ein herlidwyr—'does gyda fi un enw arall am danynt—rwydd hynt i anrheithio a difodi. Felly yr ydym yn dewis buddugoliaeth foesol o flaen un gyfreithiol. Dyma ein "Cwestiwn Dwyreiniol;" a'r hyn ydym wedi weled yn cael ei wneyd i'n cynnulleidfa mewn anystyriaeth o holl gymhelliadau uwch a phurach dynoliaeth a chrefydd—dyma'r creulonderau sydd wedi eu cyflawni yn ein mysg. Mae cydymdeimlad y byd tuallan i ni, yr unfrydedd trwyadl sydd yn bodoli yn ein plith ein hunain, ein ffydd yn nghyfiawnder ein hachos, ein cred fod dialedd bob amser yn dinystrio ei ddybenion ei hun, ac yn ddrwg yn ei natur—yn hollol ddrwg, ac yn deilliaw o'r Un Drwg,—uwchlaw'r cwbl, ein hymddiried diysgog yn Nhad y trugareddau, wedi ein cynnal, ac wedi ein sirioli yn rhyfeddol yn ein profedigaeth. Mae'n dechreu goleuo yn barod. Mae ymadroddion yn yr Ysgrythyrau yr ydym yn gynnefin iawn â hwy yn dyfod adref yn awr at ein calonau gydag ystyr newydd—hen iaith ein profiadau crefyddol yn ymddangos wedi ei gwisgo mewn ffurfiau newydd a chyflawnach nag o'r blaen. Mae tân profedigaeth wedi dadguddio yn fwy eglur ddyfnderoedd o deimlad brwdfrydig oedd yn anweledig o'r blaen. Dywed hen dduwinydd fod rhai llysiau a blodau yn anfon allan arogl mwy melus a hyfryd ar ol eu sathru dan draed. Felly

mae sawdl yr erlidiwr wedi dadguddio ynom ninau yn fwy helaeth nag erioed rasusau nefol amynedd ac ymostyngiad, gwroldeb a phenderfyniad i wrthsefyll erledigaeth a gwawd ein gelynion, er mwyn yr hyn sydd i ni yn achos gwirionedd, ac yn achos Duw ei hun. Yr wyf am gyfeirio yn fyr at un neu ddau o bethau mewn perthynas i'n herlidwyr ag sydd yn gofyn eu heglurhau. Yn gyntaf mae'n rhaid nodi fod y ddirprwyaeth a anfonwyd at arglwydd y tir wedi eu hyspysu nag oedd gydag ef wrthwynebiad i gadw'r capel yn agored ond iddo ef gael appwyntiad y gweinidog yn ei law ei hun, ac i gael yr hawl o enwi olynydd i mi. Ychydig feddyliwyf sydd yn angenrheidiol i'w sylwi ar yr hyn a alwaf fi yn berffeithrwydd creulondeb yn yr erledigaeth ddeublyg *(double-distilled)* hon. Byddai caniatau y fath hawl i dirfeddianydd yn cynnwys dadymchweliad ac ymwrthodiad o un o egwyddorion anwylaf a mwyaf sylfaenol Annghydffurfwyr yn gyffredinol—hyny yw, yr hawl rydd a diammodol i ethol neu i ymadael â'u gweinidog. Mae y berthynas rhwng gweinidog Ymneilldiol a'i eglwys wedi bod erioed yn un o gyd-ddealldwriaeth a chydymdeimlad. Gan eu bod yn debyg yn toimlo cywilydd i roddi gomeddiad penderfynol i'r ddirprwyaeth, ac yn gweled y digllonedd a fuasai hyny yn greu ar bob llaw, darfu iddynt wrth wneyd y cynnygiad hwn ychwanegu elfen arall o chwerwder i'w hymddygiad blaenorol. Nid yw ond esgus gau a disylwedd, ymgais gowardaidd a diddefnydd, ar ran gelyn i wneyd ei enciliad o'r maes yn ddyogel gyda rhyw ymddangosiad gwael o anrhydedd. Dywedir mae y cyhoeddusrwydd a roddwyd i'r mater sydd wedi gwneyd yr holl niwed, ein bod wedi ymofyn am gymhorth y wasg, er mwyn dadlenu, ac os yn bossibl yn y modd hyny i gael gwared o'n beichiau. Dywedir pe na byddem wedi gwneyd hyn y buasai ein herlidwyr wedi tosturio! Aïe! Pe na byddem wedi gwneyd hyn, buasent hwy wedi dweyd yn dawel wrthym—pe byddem wedi rhoddi i fyny ein hiawnderau a'n traddodiadau anwylaf heb un ochenaid—"O, gallwch ddychwelyd etto, yr y'ch chwi yn *lot* o Gristionogion hawdd eich trin, yn hollol *free and easy*, yn llawn natur dda, i fyny tua'r Llwyn yna; 'yr y'ch ch'i yn *set* dda ddiawledig yn eich ffordd,' gallwch ddyfod yn ol etto." Nis gallaf aberthu fy hun i'r fath ynfydrwydd. Yr wyf yn barod i ganiatau fod y cyhoeddusrwydd sydd wedi cael ei roddi i'r fath driniaeth gan y wasg drwy y deyrnas yn ddiamheu wedi gwneyd niwed i rai. Mae y wasg wedi gwella rhai o ddrygau gwaethaf cymdeithas. Byth oddiar yr amser pan y taflodd Martin Luther, yn yr hen gastell Germanaidd, ei *inkhorn* at y diafol, mae y fath ddatguddiadau wedi tueddu i andwyo ei waith i ryw fesur, ac i fyrhau tymhor ei deyrnasiad. Mae y wasg wedi gosod terfyn ar oes euraidd erledigaeth. Barn y cyhoedd yw yr awyrgylch mwyaf iachus i wyntyllu cwestiynau'r dydd, ac os oes gyda ni wasg rydd, chawn ni ddim hefyd bwlpud rhydd? A ydyw ochr dymhorol bywyd i fod yn rhydd, ond y gweinidog i gael ei ddystewi wrth weithio allan ei alwedigaeth? Fe dry abwydyn ond sangu arno, ac oni chaniateir i ninau, fel yr abwydyn, i droi hefyd yn ein ing ysprydol? Yr ydym ni yn Annghydffurfwyr, ac ar ol cyfnewid gair neu ddau gallwn ddefnyddio iaith Shylock mewn cyssylltiad â'n hachos. Yr ydym ni yn Annghydffurfwyr. Onid oes gan Annghydffurfwyr lygaid? Onid oes gan Annghydffurfwyr ddwylaw, ermigau, teimladau, serchiadau, a thueddiadau? Ai nid ydynt yn cael eu moithrin â'r un ymborth, eu niweidio â'r un arfau, yn ddarostyngedig i'r un clefydau, yn cael eu gwella gan yr un moddion, yn cael eu gwresogi a'u hoeri gan yr un haf a'r un gauaf ag aelodau o gyfundebau ereill Cristionogol? Ac yn ddiweddaf, dywedir gan rai ei bod yn drueni, ei bod yn rhy ddrwg, bod cynnulleidfa yn cael ei thori i fyny ar gyfrif un dyn. Yn gyntaf, nid wyf yn credu mai hyn sydd wedi bod yn achlysur ein presenoldeb ni yma heddyw — credaf fod ergyd wedi ei annelu at egwyddorion cyssegredig ydynt yn anfeidrol uwch nag unrhyw beth personol. Ond dywedaf hyn—os wyf fi ar y ffordd, gwnewch â mi fel y byddwch yn dewis. Os eich dymuniad yw, gwnaf gyda phob

parodrwydd a pharch roddi fyny yr ymddiriedaeth gyssegredig y darfu i chwi gyflwyno i mi mor wresog ac unfrydol ugain mlynedd yn ol. Felly peidiwch gadael i mi fod ar y ffordd. Ond nis gadawaf ar orchymyn neb arall. Nis gadawaf oblegyd fod goruchwylwyr tirol yn ymyryd. Nid wyf y fath was cyflog ag i ffoi ymaith oddiwrth y praidd, pan mae ymosodiad wedi ei wneyd ar y gorlan. Os wyf i ymadael, mae yn rhaid i chwi ddweyd felly. Os mai dyna eich penderfyniad, byddwn yn eich gadael; ond ni ddarfyddwn eich caru nes y byddwn yn cael fy nghludo i'm gorphwysle diweddaf, os nid yma yn mysg fy mherthynasau a'm cyfeillion, etto mewn rhyw fan nid pell o ddaear fawreddog Duw, yr hon sydd yn fy ngolwg i, i gyd yn dir cyssegredig.

ARAETH MR. C. H. JAMES, MERTHYR,

A draddodwyd yn Nghapel Twynyrodyn ar yr achlysur o basio penderfyniadau o gydymdeimlad a chynnulleidfa Llwynrhydowen, Nos Sul, Tachwedd 12, 1876.

Fy Nghyfeillion,—Mae'n achlysur anffodus iawn ag y gelwir ni i gymmeryd rhan ynddo heno, ac o braidd y teimlwn ei bod yn bossibl i ni siarad, yn y wlad hon, ar ganol y 19eg ganrif, am fater fel yr un sydd yn awr yn cyffroi y corff Undodaidd yn mhob man. Yr oedd cynnulleidfa yn Sir Aberteifi, a chapel yn perthyn iddynt, 'rwyf yn meddwl, am uwchlaw 130 o flynyddau, y rhai ydynt wedi addoli yno yn ystod yr holl amser, ond yn awr, er fod tair blynedd o'r *lease* heb eu treulio,—am ryw achos neu gilydd, nid wyf yn gallu deall beth, ond nis gall fod yn achos cyfiawn—mae y bobl hyn wedi eu troi allan o'u capel, o'u mynwent, a'u gorfodi i gynnal eu haddoliad crefyddol goreu y medront yn yr awyr agored nes y byddont wedi darparu rhyw adeilad arall ar gyfer eu hangenion. Yn sicr o braidd y gallwn sylweddoli ein bod yn byw mewn gwlad lle mae y fath beth yn bossibl. Ond felly y mae; mae wedi dygwydd; ac mae yn rhaid i ni gyd ystyried y gall yr un peth ddygwydd i ni ein hunain, ac yr wyf yn eithaf sicr y bydd pob un o honom sydd wedi cymmeryd dyddordeb mewn addoldai crefyddol, ac wedi ffurfio cyssylltiadau anwyl â hwy—y bydd pob un yn gwybod eu bod yn werthfawr iawn yn ein golwg, a phe byddem yn cael ein troi allan ar fynud o rybudd, i lechu am gysgod lle y mynwn yn yr awyr agored, edrychem ar y fath weithred fel un a ddygwyddai o braidd mewn gwledydd fel Yspaen a Thwrci, neu rhyw le o'r fath. Yr oeddwn yn meddwl ein bod wedi tyfu allan o'r fath beth a hyna yn y wlad hon, ond nid yw felly, ac yr wyf yn ofni y bydd yn rhaid i ni edrych allan am ragor o'r fath weithrediadau. Edrychwch ar beth sydd yn myned yn mlaen yn ein gwlad. Ymddengys fod ein gweinidog, gyda'r teimlad caredig hwnw sydd ganddo bob amser at bawb a phob peth, yn meddwl ein bod yn tyfu i fod yn rhyfeddol o ryddfrydig, a'n bod yn myned i fod yn llaw yn llaw a phawb, a bod pawb yn ymddwyn fel Cristionogion y naill at y llall. Ond ai felly y mae yn y byd ar yr amser presenol? Onid ydych yn gweled fod Prydain y dydd hwn yn llawer mwy anoddefgar nag y bu—bod pobl yn caniatau llawer llai o ryddid crefyddol i chwi, nag yr arferid gwneyd pan oeddech yn ieuainc? A allwn ddim gweled i gyd beth yw tuedd uchel Eglwysyddiaeth drwy yr holl wlad? Mae tir y wlad—rhyw dair rhan o bedair o hono—yn cael ei ddal gan Eglwyswyr. Mae cannoedd a miloedd o gapeli y fynud hon yn nwylaw y fath bobl, ac os ânt yn mlaen yn ymgryfhau fel maent wedi gwneyd yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf, cewch weled na chaiff rhan fawr o'r capeli hyn ddim adnewyddiad o'u *leases*. Mae hyna yn cyffroi yn fy meddwl ystyriaeth ddifrifol iawn. Edrychwch ar ein sir ein hunain. A fyddai braidd un capel ar dir Arglwydd Bute? A ellwch chwi dybied y gwnai efe

adnewyddu *leases* i'r fath bobl? Mae'r peth yn anmhossibl. Wna efe ddim, fel rwy'n deall, roi lle i adeiladu Eglwys, chwaeth i adeiladu capeli. Wel, os mai felly mae hi, mae'n bryd i ni edrych sut ac yn mha le ydym ni yn sefyll? Os oes tair rhan o bedair o'r tir yn nwylaw dynion ydynt yn elynol i'r gwahanol enwadau annghydffurfiol; ac os na fydd gyda ni allu i gael adnewyddiad o'n *leases* pan y byddant wedi treulio allan, yn mha le yr ydym ni i sefyll? Allwch chwi ddim myned yn mlaen am byth i gynnal eich gwasanaeth crefyddol ar yr heol; mae'n rhaid i chwi gael tir i adeiladu eich capeli ac i gynnal eich cyfarfodydd arno; ac os yw yr ysbryd Uchel Eglwysig yma—o'r hwn mae yr amgylchiad presenol yn debyg o fod wedi tarddu—i fyned yn mlaen, fel mae wedi myned am yr ugain mlynedd diweddaf, mae arswyd arnaf i feddwl beth fydd y canlyniadau yn y wlad hon.

Mae ein cyfeillion yn Sir Aberteifi wedi gorfod teimlo yr ergyd cyntaf, ac mae'n ddyledus oddiwrthym ni fel Undodiaid yn Merthyr i anfon iddynt y fath ddangoseg o gydymdeimlad ag y gallwn. Ond pa gydymdeimlad allwch chwi roddi iddynt a fydd yn ddigon yn ngwyneb colli eu mynwent? Gallwch adeiladu capel iddynt—ac mae capel i'r rhan fwyaf wedi ei gyssegru á theimladau nas gall ereill ddeall, ond y rhai sydd yn addoli yno bob mis a phob blwyddyn, ac i'r rhai hyn mae'n ymddangos yn llawn o ryw deimlad sydd yn cyffwrdd â chalon dyn, fel nas gallwch droi dyn allan o'i gapel fel o dwlc mochyn a meddwl dim am hyny. Mae ein teimladau wedi eu rhwymo i fyny gyda'n addoldai mewn ffordd ryfedd a dirgelaidd nas gallwn gyfrif am dani. Er hyny gallwn adeiladu capel iddynt, ac feallai un gwell nâ'r un oedd ganddynt o'r blaen. Ond beth am y fynwent, beth ellir wneyd o hono? Mae tadau a mamau y bobl yna yn gorphwys yno, ac a yw'r lle i fyned yn anialwch, lle y bydd rhyddid i'r cwn fel bleiddiaid i grwydro ac i chwilio am yspail? Mae y peth yn ofnadwy i feddwl am dano, nas gall y bobl yma ydynt wedi claddu tad, mam a phlentyn yn y fynwent hon, sydd yn cael ei galw yn "*God's acre*,"—nas gallant gael y fraint o fyned i mewn. O braidd y gallaf siarad ar y mater gyda'r fath amynedd a phwyll ag y gweddai i mi wrth anerch cyfarfod cyhoeddus, ond nis gallwn oddiwrth ein teimladau ar fater fel hwn. Nid wyf yn gwybod a ddeillia rhywbeth oddiwrth hyn neu peidio. Yr wyf wedi cael bob amser, ac yr wyf yn meddwl y gwel pob un sydd yn astudio hanes Lloegr, pan mae unrhyw amgylchiad neillduol o ormes yn dygwydd, rhywbeth sydd yn deffroi cydwybod cymdeithas, fod y bobl yn cynhyrfu. Ac a ydyw i gael ei oddef—yr wyf yn meddwl mai dyma'r ffordd yr edrycha pobl arno—a ydyw i gael ei oddef fod ugain miliwn o bobl i fyw yn Lloegr, a rhai a wnant y goreu drostynt eu hunain, a'r oll i fod yn nwylaw ychydig ydynt yn elynol i'r mwyafrif? A ydyw i gael ei oddef—nad ydym ni ddim i gael lle i addoli Duw? Darn bychan o dir, i addoli Duw yn ein ffordd ein hunain, ac i gladdu ein cyfeillion yn ein ffordd ein hunain? Yr wyf yn meddwl y gwna y bobl bob yn dipyn, os dygwydda dau neu dri amgylchiad tebyg i'r un yn Ngheredigion, osod y mater o flaen eu hunain fel hyn, "Ni roddwyd dacar Duw i un dyn nac i unrhyw ddosparth o ddynion, i'w gadw ymaith oddiwrth y rhai á chwenychant addoli Duw a chladdu eu pobl yn eu ffordd eu hunain." Pa un a ydym wedi dyfod i'r man yna neu peidio, nid yw yn amlwg etto, ond fe fydd hwn yn gam mawr tuag at greu y fath sefyllfa o feddwl yn y wlad fel ag i honi hawl dros bobl ag sydd ganddynt gapeli eu bod yn ddyogel yn eu capeli, ac i rwystro unrhyw ormeswr bydded ef ieuanc, bydded ef hen, rhag troi pobl allan o'u capeli a'u mynwentydd a'u gadael i fyned lle y mynont, er eu bod wedi byw yn y gymmydogaeth, ac yn ddynion o barch a chymmeriad.

Ar ol cwblhau ei araeth, cynnygiodd Mr. James y penderfyniad a welir ar dudalen arall.

DYFYNIADAU.

YR OLYGFA DYDD SUL, TACH. 5ED.—YR oedd yno *blatform* bychan wedi ei godi, a chadeiriau a byrddau wedi eu gosod at wasanaeth y gweinidog ac ereill. Yr oedd y gynnulleidfa, yr hon oedd eisoes wedi dyfod yn nghyd, ac yn dysgwyl Mr Thomas, wedi ei chyfansoddi o boblogaeth wledig yr ardal fynyddig hono. Yr oedd yno wrywod a menywod o bob oedran wedi ymgasglu, heb yr un amddiffyniad rhyngddynt ag awyr y nefoedd. Yr oedd yno ffermwyr yn ngwisgoedd cryno a sylweddol yr amaethwr *well-to-do* sydd yn byw mewn ardal anhygyrch ac annghysbell. Yr oedd yno feibion amaethwyr, rhai wedi tyfu i fyny, ac ereill yn ieuangach, ac yn meddu gwynebau dysglaer, gonest, a deallgar. Yr oedd yno lafurwyr hen ac ieuanc, rhai â'u gwallt gwyn yn dwyn tystiolaeth o addfedrwydd eu profiad, yn awr wedi eu rhwystro mor ddisymwth fel addolwyr yn yr hen gapel gerllaw. Nid oedd rhifedi cynnrychiolwyr menywod y boblogaeth yn nemawr llai. Wedi eu gwisgo yn gryno mewn gwisgoedd dipyn yn hen ffasiwn, cyffelyb i'r hyn a geir yn y rhan yma o'r wlad, ond â gwynebau yn arddangos holl liwiau iechyd da, a llygaid yn dwyn nodau teimlad dwfn a dwys mewn perthynas i'r dygwyddiad rhyfedd oedd wedi eu gorfodi i gyfarfod yn y fan hono, gwragedd, mamau, ac yn dra thebyg rai ag oeddynt rieni i famau, oblegyd yr oedd yno lawer o rai hen a ffaeledig,—cymmerent eu safleoedd yn y dorf, a'u rhai bychain wrth eu hochrau. Cynnulliad gwirfoddol ydoedd hwn o ddyrion wedi dyfod yn nghyd i fwynhau lles oddiwrth eu gwasanaeth crefyddol eu hunain, ac nid oes amheuaeth am y teimlad dwys gyda'r hwn yr oeddynt oll yn cael eu cyffroi. Yr oedd ymddangosiad o ddifrifoldeb dwfn a thrist yn weledig yn mhob gwynebpryd. Ni lefarai'r bobl ond yn unig mewn tôn a arwyddai deimlad tawel a gostyngedig o dristwch, teimlad o niwed rhy fawr i feddwl yn ysgafn am dano, ac o natur oedd yn gofyn goddefiad amyneddgar yn hytrach nâ gwrthwynebiad gwresog a bywiog. Mae'r didwylledd syml, teimladwy, a chyffrous a ddangosid gan y cyfarfod trefnus, parchus, a difrifol hwnw, yn ffaith fawr na ddichon neb sydd yn meddwl mai ei *interest* yw gwawdio'r hyn sydd yn myned yn mlaen er mwyn boddio rhagfarn personau a ddirmygant hyd y nod enw Annghydffurfiaeth, ei esponio ymaith. Ni feiddiai'r un o'r rhai hyny a deimlent yn gwbl wrthwynebol i'r gynnulleidfa Undodaidd yn Llwynrhydowen—ac yr oedd yno un neu ddau yn bresenol—yn ngwyneb y cyfarfod difrifol a thrist hwnw, wneuthur gwawd o'r caledi i'r hwn oedd y gynnulleidfa mor heddychlon yn ymostwng Nid oedd y tywydd yn ffafriol. Yr oedd y wybr yn gymmylog, a'r gwlaw yn syrthio yn awr ac yn y man, ond heb yru adref yr un o'r gwrywod na'r menywod, y rhai, er gwaethaf gormes tirfeddianwyr ac annymunoldeb tywydd oer, oeddynt yn benderfynol i beidio rhoddi i fyny eu gwasanaeth crefyddol arferol.—*South Wales Daily News.*

MAE'R Parch. W. T., mewn llythyr i'r *South Wales Daily News*, yn dywedyd fod amryw ymofyniadau wedi eu cyfeirio ato ef yn ceisio gwybod a ydyw efe'n bwriadu, neu beidio, ateb adroddiad *special commissioner* y *Western Mail*, yr hwn oedd yn amlwg wedi ei fwriadu i niweidio ei gymmeriad, yn gystal ag i ddiffodd y cydymdeimlad cyffredin a ddangosir tuag ato dan yr erledigaeth mae efe a'i gynnulleidfa, yn annysgwyliadwy iawn, yn gorfod ddyoddef. "Gyda eich caniatad, dywedaf yn awr, unwaith am byth, nad pa lwybr y meddylia fy nghyfeillion yn briodol i'w gymmeryd yn y mater, yr wyf wedi dyfod i'r penderfyniad, y bydd i'r amddiffyniad o honof fy hun, a dynoethiad o'r cruglwyth anwireddau yn yr adroddiad hwnw yn ddiangen, ac yn waith ofer ar fy rhan i." Mae Mr. T. yn egluro, "Tra'r wyf yn dadgan oflaen y cyhoedd, ac yn herio gwrthddywediad, fy mod yn rhydd oddiwrth y cyhuddiadau pwysig hyny a wneir yn fy erbyn; er fy mod yn taflu yn ol, gyda holl ddirmyg a digllonedd fy natur ar draws y rhai a'u llaniasant, y drwgliwiadau ffiaidd hyny, ni chaniataf i echryslonrwydd a chreulonder y weithred sydd wedi ei chyflawni—troad allan cynnulleidfa heddychol o'u tŷ gweddi—i'w bwrw i'r tu cefn gan ddadl bersonol ddibwys yn nghylch haeddiant neu ddiffyg haeddiant. Os ydyw cyflawnwyr erledigaeth y 19eg ganrif yma yn teimlo cywilydd am yr hyn maent wedi eu wneuthur—ac yr wyf yn gobeithio y byddant byw yn ddigon hir i deimlo hyny, os nad ydynt yn ei deimlo eisoes—bydded iddynt gyffesu hyny, ac nid encilio fel cowardiaid dan gysgod fy enw a'n nghymmeriad i. Yr wyf yn benderfynol, can belled ag y gallaf, er anwyled

yw gymmeriad personol i bob dyn, na chaiff materion anmherthynasol dynu fy sylw oddiwrth y safle sydd fenol o gyhoeddi drosof fy hun a thros ereill, yn mhob modd ag y medraf, egwyddor fawr rhyddid gwladol a chrefyddol i bob sect a chredo ac eglwys. Pan y mae hawl naturiol ac anwahanadwy dyn i addoli ei Grewr yn unrhyw fodd mewn perygl, dylai'r ffaith gael ei dwyn i'r amlwg a'i chyhoeddi'n groew, a rhaid i bob peth lleol neu bersonol roddi ffordd. Dryglwied ein herlidwyr fy enw gymmaint ag a ddewisont 'dyw hyny ond peth dibwys mewn cymhariaeth; ond na chaffed traddodiadau Annghydffurfiaeth eu bradychu, na rhagorfreintiau addoliad gael eu cymmeryd oddiwrthym, na gweithred o annynoldeb gwarthus gael ei chuddio, tra'r ydym ni yn ymrodi yn gyfangwbl at wneuthur ymosodiadau personol y naill ar y llall."

MAE'N anhawdd deall, meddai gohebydd y *South Wales Daily News*, pa les y gall y llwybr aydd wedi ei gymmeryd ei wneuthur, gan nas gall y capel ddim dwyn rent i Mr. Lloyd, ac y mae'r fynwent sydd yn ei amgylchynu yn llawn o feirw, perthynasau ac hynafiaid poblogaeth presenol yr ardal. Mae'r capel yn wrthddrych o ddyddordeb mawr i drigolion yr ardal, i'r rhai y mae wedi ei wneuthur yn anwyl gan lawer o gyssylltiadau sanctaidd, ac y mae'n naturiol i feddwl fod y fynwent lle gorwedda lludw cynnifer na fydd eu coffadwriaeth byth yn peidio cael eu meithrin, yn wrthddrych o ddyddordeb bychan i Mr. Lloyd mewn cymhariaeth i'r dyddordeb a deimlant hwy ynddo. Mae'n hawdd deall fod llawer o'r rhai sydd yn teimlo dyddordeb yn y dygwyddiadau rhyfedd presenol, yn gosod pwys mwy ar golli y fynwent nag ar golli y capel. Am y fynwent, lle gorwedda gweddillion cymmaint nifer o gyfeillion ymadawedig, nis gellir llanw ei le, gyda'i weddillion gwerthfawr a santaidd o anwyliaid ydynt wedi pasio i dragwyddoldeb; ond am yr adeilad, gellir llanw ei le trwy'r cyfraniadau hael ydynt eisoes wedi eu haddaw tuag at gost adeilad newydd.

MAE "Dissenter" yn ysgrifenu i'r un papyr o Gaerfyrddin, ac yn dywedyd:—"Mae'r gynnulleidfa oedd yn ddiweddar yn addoli yn y capel hwn wedi ei throi allan gan foneddwr sydd, trwy ddygwyddiad ei enedigaeth, yn berchen ar y tir y mae wedi ei adeiladu arno, a defnyddioldeb yr hwn i ddynolryw a all gael ei symio i fyny yn yr ymadrodd, iddo 'wneuthur yr anrhydedd iddynt o gael ei eni. Yn raslawn, fel y mae'n drugarog, dywed wrth y gynnulleidfa dim ond iddynt ollwng ymaith eu gweinidog presenol, a chymmeryd un arall a enwir ganddo ef, y cânt ddychwelyd yn ol ac addoli yn yr adeilad, a chaniateir hyd y nod iddynt ddodi eu hesgyrn i orwedd gydag esgyrn eu cyndeidiau. Hyny yw, mae perchenog y tir yn cymmeryd arno i enwi wrth gynnulleidfa fawr o Annghydffurfwyr (pawb o honynt, o bosibl, mor ddeallus, mor greyddol, mor ddiolwyll ag ynteu) pa weinidog y mae iddynt ganlyn. Mae rhagorfraint fanwyl a gwerthfawr Annghydffurfwyr, dewisiad eu gweinidog eu hunain, i gael eu cymmeryd oddiwrthynt, a'i gosod yn llaw dyeithrddyn mewn gwleidiadaeth a chrefydd, am y dygwydda fod yn berchen y tir. Dylem, fel Annghydffurfwyr, godi i fyny mewn arfau yn erbyn y ffughoniad yma o awdurdod Babaidd gan unrhyw ddyn, ac yn fwy neilduol gan diriedianydd Toriaidd ac Eglwysgwr, *type* o ddosparth i'r rhai y mae addysg ein plant mewn manau goleuedig wedi ei drosglwyddo gan Fesur Lord Sandon. Fel Annghydffurfwyr, dylem gynnal cyfarfoddydd yn ein holl drefydd, a thrwy ein rhifedi a'n penderfyniadau ddangos i'r byd fod Annghydffurfwyr o'r hen wasd, ac nad pa mor ddiegyfro yr ymddangoswn mewn pethau bychain, na roddwn ni ddim i fyny yr un iod o'n hegwyddorion er mwyn holl ysgweiearyddiaeth Eglwysig a Thoriaid y tir."

"YR ydym yn gobeithio," meddai'r *Unitarian Herald*, "y cyferfydd y cyfeillion yn Llwynrhydowen â chynnorthwy sydd yn yr ymdrech a wnant i godi capel newydd a fydd yn goffadwriaeth deilwng o ferthyron 1876. Onid oes rhai o'n cynnulleidfaoedd gwledig a allant gael lles oddiwrth brofiad pobl Sir Aberteifi? Gwyddom am amryw fanau lle nad oes ond un neu ddau *drustee* yn awr yn fyw. Oni fyddai yn dda iddynt edrych i mewn i ofynion eu prydlesoedd? Ac, yn wir, oni fyddai yn dda yn awr ac yn y man i edrych dros y gweithredoedd yma, yn ogystal â phethau ereill ydynt yn dal cyssylltiad a'n capelau? Yr ydym yn teimlo yn argyhoeddedig y gochelid llawer o anghyfleusdra, ac yr ennillid llawer o fanteision, pe pennodid rhyw Gyfundeb Cyn-

nulleidfaol i edrych i mewn i sefyllfa pethau unwaith mewn pedair neu bum mlynedd, dyweder, a'u gosod gerbron y bobl, fel y gallent weled yn gywir sut y maent yn sefyll."

MAE un o'r papyrau Seisnig, yr hwn sydd yn cael ei olygu gan offeiriad, yn dywedyd :—"Y rhan galed o'r drafodaeth yw na ddaufonwyd un rhybudd at y gweinidog i alw sylw at yr *irregularity* (cyfarfodydd politicaidd yn y capel). Y mae yn beth possibl ddigon na weladd ef ddim o'r *lease*, a chan fod yn berfaith anwybodus yn nghylch yr ammod neilldiol a gynnwysid ynddo, gwnaeth yr hyn oedd ei gymmydogion yn arferol o wneyd. Diau y buasai yn gomedd caniatau hyny pe gwybyddai fod hyny yn groes i ammodau y *lease*. Ond ni roddwyd un cyfleusdra iddo i wneyd hyn. Y mae yn anmhossibl dweyd nad oedd y fath ymddygiad yn galed. Nid oes angen chwilio yn mhell am yr achos. Y mae Mr. Lloyd yn Geidwadwr, y gweinidog yn Rhyddfrydwr cryf, ac efallai ddim yn bwyllog iawn, a gwnaeth ddefnydd o'i gapel i amddiffyn ei olygiadau politicaidd. Pe buasai y Parch. William Thomas o'r un syniadau politicaidd a'i arglwydd, ni ddywedid dim am dori'r ammod; ond gan fod Mr. Lloyd fel y mae, a Mr. Thomas fel y mae yntau, y mae y mater wedi cymmeryd ei ffurf ddiflas bresenol. Anhawdd yw credu fod Mr. Lloyd wedi cael ei gynghori yn dda. Nid oes ond tair blynedd gan y *lease* i redeg allan, a byddai cystal i ganiatau iddi i gael rhedeg allan. Fel y mae, y mae Mr. Thomas yn alluog i gymmeryd sefyllfa merthyr, ac y mae yn awr yn derbyn tanysgrifiadau i adeiladu capel newydd, yn yr hwn y mae teimladau politicaidd Mr. Lloyd yn debyg o gael eu trin hyd y nod yn llai tyner nag yn yr hen."

YR HYN A DDYWED PAPYR CEIDWADOL.—Ysgrifena y *Birmingham Gazette*, papyr Ceidwadol :—"Yn ddiweddar nid yw Radicaliaeth nac Ymneilduaeth wedi rhoddi llawer o arwydd o gynnydd yn eu cadarnfa yn y Deheudir, a gofynol yw cael rhywbeth cryf i gyffroi meddwl y cyhoedd, a'i dueddu i fod yn fwy ffafriol o'u tu. Ar yr iawn bryd, mae'r hyn oedd ofynol yn cymmeryd lle—amddifadiad (*eviction*) etto, ond y pryd hwn nid amddifadiad amaethwr cyndyn o'i fferm yw, ond amddifadiad cynnulleidfa Ymneilldiol wirioneddol fyw, gweinidog a phobpeth, o'u capel. Beth allasai fod yn well i gryfhau yr achos Anghydffurfiol sydd yn nychu? Mae'r *Daily News*, organ parchus Ymneilduaeth lwydoianus, wedi rhoddi yn barod hanes torcalonus o'r mater, a chyn y bydd wythnos dros ein penau bydd yr holl wasg Ymneilldiol a Radicalaidd ar waith yn dynoethi yr olygfa druenus i'r cyhoedd cydymdeimladol, a bydd i bwlpudau capeli roddi allan y cri o lid a digofaint. Hefyd, y mae dau amgylchiad neilldiol o ffodus yn yr achos yma: yn gyntaf, fod, mor bell ag y gallwn ni gael allan, amddifadiad wedi cymmeryd lle mewn gwirionedd, fel nad yw yr hanes, o leiaf, ddim yn ffugchwedl noeth fel hanesion ereill ychydig flynyddau yn ol; ac yn ail, fod y gweinidog a'r gynnulleidfa yn perthyn i enwad sydd feddianol ar lawer o rinweddau, yn mhlith y rhai, modd bynag, ni ellir cyfrif ymostyngiad tawel neu ddystawrwydd gwylaidd, oblegyd y mae'n sect sydd wedi llwyddo i gadw stwr uwchlaw mesur priodol ei rhif, a'r hon sydd yn gwybod yn dda pa fodd i wneyd y goreu o unrhyw gam."

NODIADAU.

MAE'R *Western Mail*, papyr dyddiol y Toriaid, yn ceisio darbwyllo'r wlad (1), nad oes dim cynnulleidfa o Anghyffurfwyr wedi eu troi allan o gwbl, mai dim ond Undodiaid ydynt, ac nad yw Undodiaid dim yn Anghyffurfwyr. (2.) Os yw yr Undodiaid yn Anghydffurfwyr, fod Bradlaugh yn Anghyffurfiwr hefyd. (3.) Nad oes dim cynnulleidfa wedi ei throi allan o gwbl. (4.) Fod y tirfeddianydd yn foddion rhoddi'r capel yn ol ond i'r gynnulleidfa dderbyn yn weinidog y sawl fyddo efe yn gymmeradwyo iddynt. (5.) Mae nid i Undodiaid y rhoddwyd y brydles ar y cyntaf, ond i'r *Protestant Dissenters*. Mae cannoedd o ddarllenwyr y *Mail* mor ddall yn ddigon tebyg fel nas gallant weled y cais sydd yn cael ei wneyd at eu twyllo. Oni bai fod y *Mail* yn credu y caiff ei sylwadau dderbyniad, ni feiddiai gynnyg ei sylwadau i'r cyhoedd. Sylwn ar yr haeriadau hob yn un :—(1.) Nid yw yr Undodiaid yn Anghydffurfwyr. Beth ydynt ynte? Rhaid eu bod yn gydffurfwyr neu yn anghydffurfwyr, yn gydffurfwyr neu heb fod yn gydffurfwyr. Os nad ydynt yn Anghydffurfwyr, nid oes dim lle canol, maent

yn rhwym o fod yn gydffurfwyr, hyny yw, yn Eglwyswyr. Yr Undodiaid yn Eglwyswyr! Mae yn swnio yn wrthun, onid yw? (2.) Mae cais yma i dafiu anmharch ar yr enwad Undodaidd, am fod Bradlaugh yn *Atheist* proffesedig. Ond cofier fod hanner poblogaeth ein carchardai yn gydffurfwyr, yn perthyn i'r eglwys wladol. Beth mai hyny yn brofi? Dim ond penwendid dyn sydd yn ymostwng i ddefnyddio *argument* ag y bydd pob Tori *respectable* yn cywilyddio ei ar idel. (3.) Darllener hwn etto, a darllener y geiriau hyn allan o lythyr Mr. Mason Allen,—"Cyfarwyddir fi ac yr wyf yn bwriadu yn ddhoedi cymmeryd meddiant o'r capel uchod, ac yr wyf yn gwahardd unrhyw berson i drespasu yno. Dygaf *action* yn erbyn unrhyw berson a elo i mewn i'r capel ar ol y dyddiad hwn." Ac wedi'r cwbl mae *Special Correspondent* y *Mail* yn meddu ar ddigon o haerllugrwydd a digywilyddra i ddywedyd nad oes yr un gynnulleidfa wedi ei throi allan. (4.) Mae egwyddor bwysig yn gynnwysedig yma, sef hawl cynnulleidfa i ddewis ei gweinidog. A oes rhaid i ni roddi yr hawl yma i fyny i'r tirfeddianwyr? Daw hyny'n fuan feallai, os ca'r Toriaid eu ffordd. (5.) Beth ydyw Undodiaid os nad ydynt yn *Brotestant Dissenters?* Pwy ydynt *Brotestant Dissenters* os nad yw Undodiaid? (6.) Ychwanegir nad yw *young* Lloyd yn cymmeryd dim dyddordeb mewn *politics*. Feallai nad yw. Beth am hyny? Mae y rhai sydd yn llywodraethu'r *estate* drosto yn cymmeryd dyddordeb mawr, fel y mae llawer yn gwybod er eu cost!

Mae cynnulleidfa Llwynrhydowen, y rl ai ydynt trwy ddygwyddiadau diweddar wedi eu han ddifadu o'u capel, ac felly heb le cymhwys i addoli Duw, yn brysur wrth y gwaith o godi tŷ cadd. Ac yn hwnw bydd iant yn ceisio cysgodi rhag gwlaw ac oerfel y gauaf ac hyd nes byddont wedi eu gallucgi trwy garedigrwydd y cyhoedd i brynu tir ac adeiladu capel newydd iddynt eu hunain—capel coffadwriaethol. Bydd pob hadling yn help, a bydd gweinidog a chynnulleidfa'r Llwyn yn ddiolchgar am bob cynnorthwy.

Dywed y *Christian Life* fod capel presenol y Llwyn yn gapel coffadwriaethol, gan ei fod wedi ei adnewyddu ar gost o rywbeth tua £300 yn 1862, yn mhen 200 o flynyddau ar ol troad allan y ddwy fil, y rhai a fwriwyd allan yn 1662.

Nid pawb o ddarllenwyr yr Ymofynydd sydd yn gwybod fod gan y Parch. William Thomas dair cynnulleidfa, sef Capel-y-Fadfa, Llwyn-rhyd-owen a Llandyssul. Mae'n pregethu yn y ddau le blaenaf ar yn ail yn y boreu ac yn y prydnawn, ac yn yr olaf yn yr hwyr.

Bydd i bregeth y Parch. N. R. Williams, Merthyr, yr hon a draddodwyd ganddo ar bwnc mawr yr "Eviction" gael eu hargraffu ar unwaith. Y teitl iydd "Are Unitarians Christians?" a'r pris fydd tair ceiniog. Yr elw at Drysorfa Capel Coffadwriaethol y Llwyn.

Nos Sul, Tach. 19, traddododd y Parch. J. J. George bregeth ar yr "Eviction" "a Pheryglon Anghydfurfiaeth" i gynnulleidfa luosog. Clywsom ei fod yn bwriadu ei hargraffu mewn newyddiadur lleol.

Yr ydym wedi gweled byspysiad fod cyfarfod "Indignation" i gael ei gynnal yn Abertawe, yn nghapel Ebenezer, capel Annibynol Dr. Thos. Rees, awdwr hanes "Nonconformity in Wales," nos Wener, Rhagfyr laf, Mr. E. M. Richards, diweddar aelod dros Sir Aberteifi i fod yn y gadair.

Yn ol y "Dissenters' Chapel Bill" (1849), yr hwn ydyw Siarter Rhyddid i Undodiaid, mae "arferiad" y 25ain mlynedd blaenorol i unrhyw *suit* yn penderfynu egwyddorion y gynnulleidfa, yn absenoideb dadganiad amlwg o bynciau'r ffydd yn y *Trust Deed*.

Mae Mr. Allen wedi ysgrifenu at Olygydd y *South Wales Daily News* i achwyn am y sylwadau a wnaeth mewn perthynas iddo ef a Mr. Lloyd.

Cyfanswm y cyfraniadau at gapel newydd y Llwyn hyd yn bresenol (Tach. 29ain) yw £764 3s. 6c.

LLYTHYRAU.

At y Golygydd.

Byddwch cystal a chaniatau i mi ran o'ch gofod i draethu ychydig eiriau ar y pwnc uchod yn yr Ymofynydd. Gweithred anrhugarog iawn, fel y mae yn ymddangos i mi, yw yr un sydd wedi cael ei chyflawm yn ddiweddar iawn yn Sir Aberteifi, sef difeddiannu cynnulleidfa a gweinidog Llwynrhydowen o'u capel i addoli Duw eu tadau

ynddo. Gwir, nad yw Mrd. John Davies Lloyd & Co., yn dweyd mai oblegid diffyg rhyddid gwladol a chrefyddol o'u tu hwynt yw yr achos o'u gweithred annghristionogol, ond oblegyd fod y gynnulleidfa a'i gweinidogion wedi peidio cadw cyfammodau y *Trust Deed*.

Yn awr, y mae yn beth o'r goreu efallai iddynt hwy ddweyd felly gyda golwg i daflu dwst i lygaid y cyhoedd; ond er hyny, ni all y llygadgraff lai na gweled, trwy y ffugbeth ymddangosiadol, wreiddyn y mater. Gan nad beth am hyny, ymddengys i mi yn weithred sydd yn teilyngu cael ei chondemnio, ac y mae yn dda genyf feddwl ei bod wedi cael ei chondemnio mewn geiriau croeyw a diamwys gan y wasg ac mewn manau ereill. Ni all yr un Rhyddfrydwr na'r un cristion goleuedig a gwirioneddol lai na'i chondemnio, a galaru o'i phlegid, a datgan ei ddymuniad na fydd ei chyffelyb i gael ei chvflawni drachefn yn un cwr o'n hanwyl wlad. Hefyd, yr wyf yn meddwl y dylai y wlad yn gyffredinol ddwyn ei dylanwad i ddylanwadu yn y fath fodd ar ein Senedd i basio y fath fesur ag y byddo yn llwyr anmhossibl i'w chyffelyb gael ei chyflawni yn y dyfodol.

Y waedd Ymneillduol er ys rhai blynyddau yn ol mewn cyrddau chwarterol a blynyddol crefyddol oedd, "Rhyddid gwladol a chrefyddol dros y byd yn gyfan." Yr wyf fi wedi clywed llawer araeth alluog ar y pwnc ac wedi darllen llawer rhagor. Y mae yr areithiau yma yn ddiau wedi ateb dyben da; ond nid ydynt wedi bod yn foddion i sicrhau rhyddid gwladol a chrefyddol hollol dros y byd yn gyfan hyd yma. Yn y blynyddau diweddaf yma, llwnedestyn y dydd mewn rhai manau wedi bod, ac yn para i fod yw, "cydraddoldeb gwladol a chrefyddol dros y byd yn gyfan," ac y mae yr olaf, fel yr ymddengys i mi yn fwy cydweddol ag ysbryd ac athrylith y grefydd Gristionogol ac â dynoliaeth na'r blaenaf; ond etto, nid yw wedi cael y gwrandawiad a'r sylw mae yn deilyngu gan Gristionogion proffesedig yr oes oleu hon, fel mae wedi cael ei galw; ond, er hyny, a barnu yn ol arwyddion yr amserau, yn neillduol yn mhlith dynion rhyddfrydol, ansectarol a goleuedig perthynol i bob enwad crefyddol a phlaid wleidyddol yn ein gwlad, nid yw y cyfnod yn mhell pell yn y dyfodol pan y bydd, nid yn unig megys i gael gwrandawiad goddefol, ond hefyd yn un y bydd yn rhaid talu sylw difrifol iddi gan y sawl ydynt hyd yma wedi bod yn ddisylw o honi, ac wedi siarad yn ysgafn, isel, a chellweirus am dani. Y mae y weithred ysgeler ydym wedi gyfeirio ati yn un a ddylai enyn tân cydraddoldeb yn mynwes pob dyngarwr, ac oblegyd hyny ni allaf fi ddim llai na meddwl y bydd, dan raglunaeth ddoeth ein Duw da, yn foddion i hyrwyddo a sylweddoli yr hyn ddylai fod wedi cael ei sylweddoli er ys amser maith yn ol, sef nid yn unig gydraddoldeb crefyddol, ond hefyd y sefydliad o gyfraith i gospi gydag eithaf llymder y dosparth hwnw o ddynion, nad faint fyddo ei ddylanwad, sydd am yspeilio ereill o'u genedigaethfraint, sef y rhyddid o feddwl a barnu drostynt eu hunain, a gweithredu yn ol y cyfryw parth pethau gwladol a chrefyddol.

Anghydffurfwyr, codwch eich llef, a hono yn llef nerthol, drachefn a thrachefn, yn erbyn yr ymddygiad traws-awdurdodol ydwyf wedi cyfeirio ato, yna ni all lai nag hyrwyddo yr amser y bydd yn llwyr anmhossibl i'r fath weithred gael ei chyflawni mwy. Hefyd, gwneler ymdrechiadau i attegu breichiau Henry Richard ac ereill sydd am gael cyfraith i orfodi tirfeddianwyr i werthu darnau o'u tir am eu gwerth dros fyth i Gristionogion o bob enwad, lle mae galwad am hyny. Mae yn bossibl fod gelynion yr achos Rhyddfrydol yn Sir Aberteifi yn balchio wrth feddwl fod eu hachos yn cael ei wasanaethu mor dda yn ddiweddar; ond nid oes amheuaeth yn fy meddwl i, Mr. Gol., na throir eu chwerthin yn wylofain yn gynar neu yn ddiweddar. Mae'n bossibl fod llythyren y gyfraith wladol yn cyfreithloni y fath weithred galed a chreulawn; ond y *mae* cyfraith uwch, mwy awdurdodol a chyssegredig nâ'r gyfraith wladol i'w chael, gofynion yr hon sydd yn rhaid eu talu yn ei iawn bryd, er wedi ei sarnu mewn modd cywilyddus gan Mr. John Davies Lloyd ac ereill. Os yw y dynion yma yn mwynhau rhyw bleser yn eu gwaith yn dial eu llid ar ryw un neu ragor o'r brodyr yn Llwynrhydowen, ni allwn ni ddim llai nâ dymuno y bydd iddynt weled eu camsyniad, ac edifarhau o'i blegyd.

Anwyl frodyr yn yr Arglwydd, yn weinidog a chynnulleidfa, yn Llwynrhydowen *gynt*, Duw fyddo yn noddfa a nerth, ac yn gymhorth hawdd ei gael i chwi yn eich cyfyngder presenol.

Cwmbach, Aberdar E. W. Lloyd.

At Weinidog a Chynnulleidfa Llwynrhydowen.

ANWYL GYFEILLION, Yr ydym ni, y rhai mae ein henwau isod, Gweinidogion Undodaidd Dyffryn Aberdar, yn dymuno gosod allan ein cydymdeimlad â chwi yn eich cyfyngder annysgwyliadwy, a chyflwyno i chwi air o gyssur a chefnogaeth. Nid ydym yn amheu nad yw y dyfodol, o dan Ragluniaeth Duw, yn ymddibynu arnoch eich hunain. Mewn undeb mae nerth. Na chaffed trallodau y presenol eich digaloni na'ch gwasgaru. Ymdrechwch fel gweinidog a chynnulleidfa i sirioli a chadarnhau y naill y llall. Gan ymddiried yn unig yn nghyfiawnder eich achos, byddwch yn gadarn ac yn benderfynol, etto yn gymmedrol mewn gair a gweithred. Trwy amynedd a dyfalbarhad, gan ddilyn yn ostyngedig esampl yr Athraw Mawr pan o dan erledigaeth, a gorphwys yn ffyddiog ar Ragluniaeth oruwchlywodraethol Duw, chwi a ddeuwch allan yn sicr trwy gymmylau a thywyllwch eich gofidiau presenol, i oleuni dyfodol mwy dysglaer a gogoneddus. Gan weddio ar i fendith Duw orphwys arnoch chwi ac ar eich ymdrechion,

Ydym Gyfeillion, yr eiddoch,
Mewn cydymdeimlad a chariad brawdol,
E. W. LLOYD,
J. JOSEPH GEORGE,
W. JAMES,
Aberdar, Tachwedd 8fed, 1876. R. J. JONES.

"1, St John street, Bedford row, London, W.C., 20th Oct., 1876,

"*Re* Rhydowen Chapel.

"Dear Sir,—I beg to call your attention to the lease herein dated the 19th March, 1781, and to inform you that I am instructed, and intend forthwith to take possession of the above chapel, and I forbid any person to trespass therein. I shall bring actions against any person entering the chapel from this date.

"In explanation of the above it is but fair to you to mention that the lessees being all dead, and no successors having being appointed, the tenement reverts to the landlord, against whom all persons are trespassers. Had even the successions of trustees been kept up I should have sought to eject them for breaches of the covenant to use the chapel for the worship of God and to "no other purpose whatsoever."

I am, &c., S. M. ALLEN.

"John Jones, Esq., Solicitor, Llandyssul, South Wales."

"London, 30th Oct. 1876.

Re Llwyn-Rhydowen Chapel.

"Dear Sir,—I am in receipt of yours of the 20th instant.

"I should not have thought that you would have considered that I was very much given to trifling. I assure you I am perfectly serious in my intention to fight the question about the possession of this chapel, and I hope you will speedily bring your mind to realise the fact. I fail to see what I have to do with the "congregation." If there are any persons legally entitled to possession other than my client, that would be another thing. I can only say, that if any person having had notice not to trespass, shall be found trespassing after that notice, I shall ask you to accept service of writ on his behalf.

"I shall, however, be glad to conduct the proceedings in an amicable spirit, so that the matter may be determined upon the strict legal rights of the parties.—I am, &c.,

"Jno. Jones, Esq." "S. M. ALLEN."

PENDERFYNIADAU.

YN Nghyfarfod y *Western Unitarian and Christian Union* a gynnaliwyd yn Exeter, Tach. 9fed, ar gynnygiad y Parch. A. N. Blatchford ac eiliad y Parch. W. Robinson, pasiwyd yn unfrydol:—Fod aelodau yr Undeb yn dymuno amlygu eu teimladau o syndod a gofid mewn perthynas i'r mesurau diweddar y mae eu brodyr Undodaidd yn Llwynrhydowen yn dyoddef oddiwrthynt; eu bod yn sicrhau i'r gweinidog a'r

gynnulleidfa dan eu herledigaeth, eu cydymdeimlad mwyaf calonog a brawdol, ac yn dymuno yn ddifrifol gymmeradwyo eu hachos i gynnorthwy haelionus Cristionogion rhyddfrydig yn Nghorllewinbarth Lloegr.

ABERDAR.—Mewn cyfarfod cyhoeddus yn Highland Place, Mr. George yn y gadair, pasiwyd y penderfyniadau canlynol yn unfrydol:—1. Mr. John Jones, Chemist, yn cynnyg, a Mr. R. Bedlington, Gadlys House yn eilio.—Fod y cyfarfod hwn yn cydymdeimlo yn ddwfn a'r Parch. W. Thomas a'i gynnulleidfa yn eu trallod mawr presenol. 2. Mr. John Rhys yn cynnyg a Mr. T. Phillips, Solicitor, yn eilio:—Fod y cyfarfod yma yn credu fod cynnulleidfa'r Llwyn a'u gweinidog yn teilyngu cynnorthwy, a bod *Subscription List* i gael ei agor ar unwaith er cael cynnorthwy sylweddol er eu galluog i godi adeilad arall er mwyn addoliad crefyddol. 3. Mr. Evan Thomas yn cynnyg a Mr. R. Lewis yn eilio, a'r Parch. E. W. Lloyd yn supportio, Fod diolch y cyfarfod yma i gael ei roddi i Olygydd y *South Wales Daily News* am agor ei golofnau er gwneuthur yn gyhoeddus weithred ysgeler o ormes ac erledigaeth.

CWMBACH.—Ar ddiwedd cyfarfod y bore, Tach. 12fed, y Parch. E. W. Lloyd yn y gadair, pasiwyd y penderfyniadau canlynol yn unfrydol: 1. Fod y gynnulleidfa hon yn cydymdeimlo'n ddwys â chynnulleidfa a gweinidog Llwynrhydowen, Sir Aberteifi, dan yr amgylchiad eu bod wedi eu hamddifadu mewn modd annysgwyliadwy a chreulawn o'u lle addoliad. 2. Fod y gynnulleidfa hon yn ymrwymo i gyfranu, os bydd angen, yn ol ei gallu tuag at adeiladu capel newydd mewn lle cyfaddas at wasanaeth cynnulleidfa Llwynrhydowen.

HEN-DY-CWRDD, ABERDAR.—*Penderfyniadau a basiwyd Tach.* 12, 1876.—1. Ein bod yn dymuno datgan ein cydymdeimlad dwys â gweinidog a chynnulleidfa Llwynrhydowen yn eu cyfyngder presenol—cyfyngder wedi ei ddwyn oddiamgylch trwy foddion a dybiem ni na fyddai neb yn darostwng eu hunain i'w defnyddio yn yr oes hon; ac hefyd yn hyderu na fydd y brofedigaeth chwerw o golli addoldy eu hynafiaid, a gorphwysle gyssegredig eu tadau, ddim yn achos iddynt i laesu eu dwylaw yn yr achos goreu, ond yn hytrach, gyda chymhorth Duw, ac yn cael eu sirioli â rhagolygon dysglaeriach y dyfodol, i'w gymmeryd i fyny etto gyda mwy o ffyddlondeb a gweithgarwch. 2. Ein bod fel cynnulleidfa gyda'r parodrwydd mwyaf yn addaw gwneyd ein goreu i gyfranu at y *fund* sydd wedi ei chychwyn i adeiladu addoldy newydd a fydd yn deilwng o'r achos, ac yn goffadwriaeth i'r oesau a ddel o greulondeb a gormes gelynion rhyddid ar un llaw, ac ar y llaw arall o ymostyngiad, ffyddlondeb a hunan-aberth y gorthrymedigion. Arwyddwyd ar ran y gynnulleidfa,—W. JAMES, Gweinidog.

MERTHYR.—Mewn cyfarfod o'r gynnulleidfa yn nghapel Twynyrodyn, Tach. 12, y gweinidog, y Parch. N. R. Williams, yn y gadair, cynnygiwyd y penderfyniad canlynol gan Mr. Charles H. James, Cyfreithiwr, ac eiliwyd gan Mr. Thomas Thomas, *Ironmonger*, a phasiwyd yn unfrydol:—"Fod y cyfarfod yma, ar ol clywed fod cynnulleidfa Llwynrhydowen wedi eu taflu allan o'u capel a'r fynwent gan y tirfeddianydd, Mr. John Davies Lloyd, yn penderfynu anfon i'r gynnulleidfa yr anerchiad canlynol o gydymdeimlad, ac yn ceisio gan y cadeirydd i'w lawnodi ar ran y gynnulleidfa, a'i anfon at y Parch. Wm. Thomas, A.C., gweinidog y gynnulleidfa:—Mae cynnulleidfa Undodaidd Twynyrodyn, Merthyr, yn cyflwyno i gynnulleidfa Llwynrhydowen eu cydymdeimlad dwfn â hwy yn eu trallod mawr presenol. Yr ydych wedi eich trin gyda chreulondeb dideimlad, y cyfryw ag sydd yn ffodus yn anfynych yn cymmeryd lle, a braidd heb ei gyffelyb yn y wlad hon. Y mae genym, fodd bynag, fel y gweddai i gynnulleidfa Grist'nogol, i'ch anog i ymostwng iddo gyda'r gwroldeb Crist'nogol hwnw, yr hwn ydyw un o wersi cin ffydd. Pe buasech ond wedi eich troi o'ch capel yn unig, byddai hyny yn galed dilygon i'w oddef; ond pan yr ydym yn clywed fod beddau eich tadau wedi eu cymmeryd oddiwrthych, manau ydynt yn arferol o fod wedi eu sancteiddio gan y cyssylltiadau mwyaf cyffrous a difrifol, yr ydym yn teimlo yn ddwys drosoch, ac yn synu at deimladau unrhyw ddyn sy'n gallu sarhau yn y fath fodd gydwybodau cyfundeb cyfan. Allan o greulonderau a dyoddefiadau o'r fath hyn, mae'n fynych gyfreithiau o werth mawr wedi tarddu er amddiffyn dynion rhag cyffelyb orthrymderau yn y dyfodol; a gall eich bod chwi yn awr yn hau had rhyddid crefyddol a ddichon ddwyn ffrwyth ar ei ganfed i'r rhai a ddeuant ar eich ol. Yr ydym yn cynnyg i chwi unwaith yn ychwaneg ein cydymdeimlad calonog, ac yn eich cyflwyno chwi a'ch achos iddo Ef, yr hwn sydd yn cofio y gorthrymedig yn eu cystudd. Arwyddwyd dros y gynnulleidfa,—NESTOR RAYSON WILLIAMS."

HEN-DY-CWRDD, CEFNCOEDYCYMER.—*Penderfyniadau a basiwyd Tach.* 12, 1876. —1. Ein bod fel cynnulleidfa yn dymuno amlygu ein cydymdeimlad dwys a'n brodyr a'n chwiorydd yn Llwynrhydowen, fel gweinidog a phobl, yn y trallod blin sydd newydd eu goddiwedyd, ac yn gobeithio y bydd i'r teimlad o gyfiawnder eu hachos, o ewyllys da cyfeillion rhyddid, a chymhorth y Duw sydd yn amddiffyn yr iawn, eu nerthu a'u gwroli fel y byddont yn anghofio chwerwedd eu profiad presenol, ac yn edrych yn mlaen, mewn gobaith at ddyfodol mwy dysglaer ac addawol sydd yn aros eu hymlyniad a'u ffyddlondeb. 2. Ein bod yn addaw gwneyd yr hyn sydd yn ein gallu i'w cynnorthwyo i adeiladu addoldy newydd, pan mae dwylaw ansantaidd wedi eu cau allan o gyssegr eu tadau. Arwyddwyd ar ran y gynnulleidfa,—EVAN LEWIS, Cadeirydd ; W. HUGHES, Diacon.

BLAENGWRACH.—"Fod y gynnulleidfa hon yn dymuno dadgan ei chydymdeimlad dwfn â gweinidog a chynnulleidfa Llwynrhydowen yn eu cyfyngder a'u trallod presenol, ac i estyn iddynt eu dymuniadau goreu am help a thangnefedd Duw, gan ddymuno o galon y bydd iddo Ef sydd yn llywodraethu yn mrenhiniaethau dynion, ganiatau fod gwell dyddiau yn gwawrio'n fuan ar y gweinidog a'r gynnulleidfa. Yr ydym yn gobeithio na fydd i chwi gymmeryd eich digaloni, ond yn hytrach ddyfod yn fwy cryf mewn meddwl a chalon, i adeiladu i chwi eich hunain dŷ gweddi newydd, yn yr hwn anturiaeth y bydd i ni yn ol ein gallu bychan eich cynnorthwyo. Arwyddwyd dros y gynnulleidfa,—JENKIN WILLIAMS."

TREORCI.—Pasiwyd y penderfyniadau canlynol gan y gynnulleidfa Undodaidd yn y lle uchod :—Ein bod yn dymuno datgan ein cydymdeimlad gwresocaf a'n brodyr yn Llwynrhydowen o dan yr erledigaeth chwerw maent yn ddyoddef yn awr ar law gelynion rhyddid gwladol a chrefyddol. Yr ydym yn taer obeithio na fydd i'r dygwyddiad trist diweddar ddim eich digaloni, ond yn hytrach gyffroi ynoch yspryd mwy gwrol i gario yn mlaen yr achos da gyda ffyddlondeb a diwydrwydd mwy nag erioed, fel y'ch galluoger yn y man i edrych yn ol ar y brofedigaeth hon fel moddion o dan fendith Duw i greu yn eich plith fwy o undeb a gweithgarwch. Yr ydym hefyd yn ymrwymo, yn ol ein gallu, i'ch cynnorthwyo i adeiladu capel newydd, a fydd yn goffadwriaeth i'r oesau dyfodol o'r hyn a ddyoddefwyd ac a aberthwyd er mwyn crefydd yn Sir Aberteifi, hyd y nod yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.—LEWIS N. WILLIAMS, Cadeirydd.

NOTTAIS.—"Cynnulleidfa'r Nottais yn anfon anerch at Gynnulleidfa Llwynrhydowen.—Frodyr yn yr Arglwydd a chyfeillion anwyl,—Yr ydym yn dymuno cyflwyno i chwi ein cydymdeimlad didwyll yn eich trallod a'ch cyfyngder presenol, ac yr ydym yn dymuno gyda bendith Duw y bydd i chwi gael nerth i ddal i fyny dan eich profedigaeth chwerw. Byddwch yn unfryd a'ch gilydd. Cyssurwch a dyddanwch y naill y llall. Parhaed eich ffydd a'ch ymddiried yn Nuw, yr hwn sydd yn goruwch-lywodraethu pob peth er daioni. Eled tywyllwch eich nos presenol yn fuan heibio, a gwawrried arnoch foreu newydd o lawenydd a gorfoledd. Hyn yw ein dymuniad a'n gweddi. Arwyddwyd dros y gynnulleidfa,—TITUS LLOYD, Gweinidog, Nottage, Tach. 13."

CAERFYRDDIN.—*Capel Park-y-Velvet Tach.* 15.—Dr. Vance Smith yn y gadair, Mr. J. Hunton Smith yn cynnwyg a'r Parch. J. Gwenogfryn Evans yn eilio, pasiwyd yn unfrydol :—Fod y cyfarfod hwn yn dymuno dadgan, a gosod ar gof eu teimlad cryf o'r yspryd traws ac angharedig a amlygwyd wrth droi gweinidog a chynnulleidfa Llwynrhydowen allan o'u capel a'u mynwent, ac yn dymuno cyflwyno iddynt eu cydymdeimlad gwresocaf yn yr amgylchiadau poenus y maent wedi eu gosod ynddynt.—Fod copi o'r penderfyniad i gael ei anfon at y Parch. W. Thomas, A.C., J. Davies Lloyd, Yswain, a'i *agent* S. M. Allen, Yswain.

YN Nghyfarfod Chwarterol Cymdeithas yr Annibynwyr yn Ngorllewin-barth Morganwg, a gynnaliwyd Tachwedd yr 22ain a'r 23ain, yn Penclawdd, pasiwyd y penderfyniad canlynol yn unfrydol :—Fod y cyfarfod hwn, er yn gwahaniaethu oddiwrth yr Undodiaid mewn duwinyddiaeth, ac heb yn un modd roddi i fyny eu golygiadau crefyddol, etto yn yspryd rhyddid crefyddol yn ystyried troad allan cynnulleidfa yn Llwynrhydowen, Sir Aberteifi, fel enghraifft o weithrediad yspryd gormesol, yn llawenhau fod y cyfryw amlygiadau yn anfynych yn cymmeryd lle yn yr oes bresenol, ac yn gweddio am ffyniant rhyddid meddwl, a pherffaith gydraddoldeb mewn crefydd.

Hanesion.

MAE'R gynnulleidfa yn Abertawe wedi rhoddi galwad unfrydol i Mr. Manning, gynt o Goleg Manchester New, i ddyfod yn weinidog iddynt. ac y mae yntau wedi ei dderbyn ac yn bwriadu dechreu ar ei ddyledswyddau Rhagfyr 3ydd.

YN ystod y gwasanaeth, nos Sul, Tach. 11, torodd rhyw ddihirod y clo ar "Flwch y Tlawd" yn lobby Hen-dy-Cwrdd, Aberdar. Gobeithiwn y caiff y drwgweithredwyr fyw i edifarhau am yr ysgelerwaith.

YN arholiad y *pupil teachers* a gynnaliwyd yn ddiweddar yn ngholeg Abertawe, pasiodd Miss Rachel Evans o Gaerfyrddin yn flaenaf, ac yn 17eg ar y llechres gyffredinol dros Lloegr a Chymru Mae Miss Evans yn chwaer i Mr. George Evans, M.A.

MAE marwolaeth Cardinal Antonelli, meddai'r *Lancet*, wedi effeithio yn ddrwg iawn ar iechyd y Pab.

DIDDYMWYD yn agos i 80 o drwyddedau i werthu diodydd meddwol yn Dublin, dydd Iau, Tachwedd 2il.

YN eu cyfarfod diweddaf, y 64n., gorphenodd Arolygwyr y Testament Newydd âg Epistol Titus. Dywedir y byddant rai blynyddau etto cyn y byddo eu gwaith ar ben.

YN ol y *Christian Life* y mae rhagolygon yr achos Undodaidd yn Nhre Orci, Cwm Rhondda, yn obeithiol iawn. Ac etto mae lle i wella. Gwyddom am lawer nad ydynt yn rhoddi y cynnorthwy addylent i'r achos.

MEWN adolygiad ffafriol iawn ar gyfrol newydd o bregethau gan Dr. Martineau. Mae'r adolygydd yn rhoddi y lle blaenaf iddo fel pregethwr, yn mlaen ar Wilberforce, yn mlaen ar J. H. Newman; yr unig un teilwng i'w enwi ar yr un pryd ag ef yw F. W. Robertson.

DYWEDIR fod y Barnwr Hawkins yn hoff iawn o'r arian. Gofynodd cyfaill iddo yn ddiweddar pam y gosodai gymmaint o'i fryd ar gasglu arian, fod ganddo lawn ddigon er ys llawer dydd, nas gallai efe ddim myned a hwy gydag ef o'r byd yma, a phe gallai y byddent yn sicr o—*doddi*.

MEWN erthygl dan y penawd "Too much Lawn," dengys gohebydd yn y *World* fel mae ein cyfoethogion yn rhoddi eu miloedd i ffurfio esgobaethau newyddion, tra mae'n anhawdd ganddynt roddi *guinea* i gynnorthwyo curad sydd yn ymyl newynu.

MAE gohebydd yn y *Freeman* (B.) yn gwneuthur awgrymiad. Gan fod Dr. Slade wedi ei gondemnio i dri mis o garchar am dwyll, ei fod yn ymddangos iddo ef fod pob pabydd a phob offeiriad defodol sydd yn pretendio troi y dwfr a'r gwin yn gorff a gwaed Crist, ac yn cymmeryd arian am hyny, yn yr un sefyllfa â Dr. Slade, ac yn teilyngu cyffelyb gosp yn ol y gyfraith.

A OEDD Iesu Grist yn Gristion? Wel, mae hyny yn ymddibynu ar ba beth ydych yn feddwl wrth Gristion. Yn feddwl wrth Gristion!—Cristion, debygwn i, yw un yn credu yn Nghrist. Ie, ond beth sydd i'w feddwl wrth gredu yn Nghrist? Credu yn Nghrist, wel, credu yn Nghrist yw credu am dano fel y gwna'r pleidiau hyny gredu am dano, y rhai a elwir yn bleidiau efengylaidd. Wel, gallaf ateb yn awr, nid wyf yn credu fod Iesu Grist yn Gristion.

MAE wedi bod yn gynauaf lled wlyb tuag Ysgotland, fel yr oedd llawer o'r llafuriau yn cael y gwaethaf. Darfu i un Mr. Begg, yr hwn oedd ei lafur wedi bod i lawr am hir amser, pan welodd ef yn sych ar y dydd Sul, roddi gorchymyn i'r bobl ei gario i mewn, ac felly y gwnawd. Dywedodd y Frenines, yr hon oedd i fyny yn Ysgotland ar y pryd, ei fod yn gwneuthur yn iawn, mai gwaith o angenrheidrwydd oedd. Ond y mae rhai o'r offeiriaid wedi bod yn condemnio'r gwaith mewn iaith gref, fel trosedd ar sancteiddrwydd y Sabbath.

OES y rhyfeddodau yn ddiau yw'r un bresenol. Darfu i'r Parch. J. H. Hollowell draddodi pregeth, Hyd. 29ain, yn yr hon y ceisiai brofi Duwdod priodol Iesu Grist, allan o lyfr Emynau Undodaidd James Martineau. Nid ydym yn amheu nad oes cymmaint ar y pwnc yno ag sydd yn y Beibl.

MAE Abdul Hamid Bey wedi cyfieithu llyfr o'r Arabaeg yn erbyn Cristionogaeth. Llyfr ydyw o waith monach. Ar athrawiaeth y Drindod, a'r Haeddiant Cyfrifol y gwna ei ymosodiadau cryfaf. Pe ysgrifenasai yn erbyn Traws-sylweddiad, neu Anffaeledigrwydd y Pab, neu'r Pawl Gogleddol a'r saith seren, buasai cymmaint o ddoethineb ag yn ei ymosodiadau ar yr hyn nid ydynt yn ffurfio un rhan o Gristionogaeth.

RHYW unwaith mewn blwyddyn mae'r esgobion yn traddodi *charge* i'r offeiriaid. Meddai Wordsworth, esgob Lincoln, yr esgob a omeddai'r teitl *Reverend* i bregethwr Wesleyaidd, "Y mae dau bwnc pwysig yn

aros i gael eu penderfynu,—1af, mewn perthynas i wisgoedd neillduol perthynol i'r cymmun ; 2il, mewn perthynas i sefyllfa'r hwn sydd yn gweini yn y Cymmun Sanctaidd yn ystod gweddi y cyssegriad." Mae'r esgob yn dwyn holl bwysau ei ddysgeidiaeth, a holl nerth ei allu darbwylliadol i chwareu ar yr ail bwnc Ddarllenydd anwyl, a ydwyt erioed wedi ystyried pwysigrwydd y ddau bwnc yma? A elli di ateb pa un ai i'r dwyrain ynte i'r gorllewin y dylai'r offeiriad droi ei wyneb; neu ynte a ydwyt yn dy ddiniweidrwydd wedi meddwl, ag ystyried pob peth, mai gwell yw iddo i beidio troi ei gefn ar y gynnulleidfa, oblegyd nad yw hyny yn weddaidd?

Dywedir pethau *spicy* iawn weithiau tuag America. Yn yr *Unitarian Conference*, dywedodd y Parch. Jenkin D. Jones (un o Landyssul yw ei dad) fel hyn :—"Yr ydym wedi clywed llawer o bethau am Luther a Chalfin. Yr wyf yn dal ei bod yn well i losgi wrth yr ystanc am gyfeiliornad na rhewi i farwolaeth ar *iceberg* o wirionedd ;' ac ychwanegodd : "Yn nesaf at Servetus yr hwn oedd yn foddlon cael ei losgi am feddylddrych, yr wyf yn anrhydeddu John Calfin yr hwn oedd yn foddlon ei losgi."

Capel-y-Fadfa.—"Nid oes un drwg yn ddrwg i gyd," meddai'r ddiareb, ac fel un o ganlyniadau daionus yr amgylchiad sydd wedi amddifadu cynnulleidfa y Llwyn o'u capel a'u mynwent, mae genym yr hyfrydwch o gofnodi fod pobl y capel uchod wedi llwyddo i gael mynwent. Pan y prynodd un o honynt y fferm gyfagos rhyw ddwy flynedd yn ol, yr oedd gobaith cryf y byddid yn alluog i brynu rhyw faint o dir at fynwent, ac i godi capel arno, os byddai eisieu, pan y bydd prydles y capel presenol allan. Ceisiwyd gwneyd rhyw drefniadau tuag at hyny y gauaf diweddaf, ond cododd anhawsderau, oherwydd fod son ar led am anfoddlonrwydd yn ngwersyll y Toriaid ag oedd yn bygwth heddwch rhai o ddeiliaid presenol ystâd Alltyrodyn ydynt aelodau o'r capel. Ond yn union ar ol y dygwyddiad yn Llwynrhydowen, cynnygiodd y perchenog yn wirfoddol ddarn o dir i'r gynnulleidfa am £30. Mae y llawenydd yn fawr yn y gymmydogaeth, oblegyd teimlir y bydd y fynwent yma yn ddyogel, ac y caiff llwch anwyliaid ymadawedig orphwys mewn tangnefedd, heb fod gan ddyeithriaid hawl i ymyru â hwy byth.

PRIODAS.

Tach. 22, yn Capel-y-Groes, gerbron y cofrestrydd, Mr. John Jones, y Parch. T. Thomas, gweinidog Capel-y-Groes a Phant-y-Defaid, ac Esther, merch hynaf y diweddar Evan Evans, Yswain, Llysfaenuchaf, Llanwnen.

Marwgofion.

Gorphenaf 8, o'r *inflammation*, Mr. T. Davies, Penybryn, Dihewyd, yn 67ml. oed. Er iddo golli ei anwyl briod pan oedd ei blant yn ieuainc, bu ef yn llafurus iawn drostynt drwy ei oes, a gadawodd hwynt mewn amgylchiadau cysurus i alaru eu colled ar ei ol. Bydded iddynt gael nerth i fod yn gymmedrol yn eu galar. Ar ddydd yr angladd pregethwyd i dyrfa anarferol fawr gan y Parch. D. Evans, B.A., Maesymeillion, a gosodwyd y marw yn ei fedd yn mynwent Caeronen.

Medi 19, Mrs. Thomas, Dol-llan, gweddw y diweddar David Thomas, Ysw., yn 89 oed. Claddwyd hi y Llun canlynol yn ymyl ei phriod a'i brawd-yn-nghyfraith, y diweddar Barch. Thomas Thomas, Llanfair, mewn *vault* dan y bwrdd cymmundeb yn nghapel Pantydefaid. Pregethwyd ar yr achlysur gan y Parch. T. T.

Medi 28, yn 23 mlwydd oed, Mr. Thomas Davies, Ty'nrheol, Pencarreg. Daeth y dyn ieuanc hwn i bendraw'r daith drwy gyfarfod â damwain mewn pwll glo. Gweinidogaeth galed i'r perthynasau, ac yn enwedig i'r tad a'r fam, oedd clywed am ei ddiwedd torcalonus. Nid oes neb ond y profiadol yn gwybod. Y gobaith am ail-gyfarfod fyddo yn dal i fyny y penau gogwyddedig. Daethpwyd a'r corff i'w gladdu yn mynwent yr Undodiaid yn Llanbedr.

Medi 30, Mr. William Arnold, John St., Aberdar, yn 24 oed. Bu yn nychu am amser maith, a chymmerwyd ef ymaith gan y darfodedigaeth. Gadawodd weddw a phlentyn i alaru ar ei ol. Dydd Mercher canlynol, claddwyd ei weddillion marwol yn y Cemetery, pryd y gweinyddwyd gan y Parch. D. Price, Siloa, Aberdar.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, &C., ABERDAR.

TALIADAU.

E.T., Fadfa; J.L., Dowlais; D.E., Rhymney; W.H., Cefn; T.Ll., Porthcawl; W. J., Pitcot Cottage: D.E., Troedyrhiw; L.W., Treherbert; D.M., Treorky; T.J., Maesygarn; J.J., Hirwaun Road; J.Ll., Aberdare; J.J., Cwmmawr; W.D., Cwmavon; J.D., Llandilo; D.T., Liverpool; D.D., Llanelly; J.E., Nantgwyn; M.R., Brechfa; W.L., Pontypridd; E.J., Swyddffynon; T.H., Cymmer; E.J., Carmarthen.

☞ Y mae amryw farwgofion, &c., wedi eu gadael allan o ddiffyg gofod.

CYFARFOD Y NADOLIG.

Cynnelir y Cyfarfod Chwarterol nesaf yn Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar, ar ddyddiau Mercher a Iau, Rhag. 27ain a'r 28ain. Y cyfarfod nos Fercher i ddechreu am 6.30. Dydd Iau am 10.30, pryd y pregethir gan y Parch. D. Evans, B.A., Maesymeillion. Y Gynnadledd prydnawn dydd Iau am 2.30. Pwnc:—"Cymhwysder neu anghymhwysder Undodiaeth ar gyfer angenion yr oes." Cymmered pawb sydd yn teimlo dyddordeb yn ein cyfarfodydd yr uchod i'w sylw, a gwnant ymdrech i fod yn bresenol.

W. James.

ARE UNITARIANS CHRISTIANS?

A Sermon by the Rev. N. R. Williams, Twynyrodyn, Merthyr, with special reference to the Eviction in Cardiganshire. Price 3d., by post 3½d., or 2s. 6d. per doz. The profits will be handed over to the Eviction Fund.

HEN DY-CWRDD Y NOTTAIS.

Yn gymmaint a bod Capel y Nottais wedi myned yn rhy fach ac yn rhy anaddas i ateb dybenion y gynnulleidfa, yr ydys wedi penderfynu ei dynu i lawr i'w ail-godi yn yr un fan, ar ddull fyddo'n cydweddu yn fwy â chwaeth yr oes bresenol; ond gan fod y rhan amlaf o'r gynnulleidfa o amgylchiadau isel, ac yn analluog i gyfranu fel y dymunent at y treuliau angenrheidiol, y maent dan orfod i appelio at haelioni a theimlad da eu cydgristionogion am gynnorthwy arianol i ddwyn y gwaith i ben. Mae amcan-gyfrif y draul at godi y capel yn nghyd ag ysgoldy yn £550, ac mae y gynnulleidfa wedi gwneyd i fyny yn eu plith eu hunain oddeutu £150. Yr ydys yn gobeithio y gellir agor y Capel newydd cyn diwedd y flwyddyn bresenol. Derbynir cyfraniadau gyda diolchgarwch gan y gweinidog—Y Parch. Titus Lloyd, Newton, Near Bridgend.

Yn awr yn barod, Pris 3s. a 6ch., wedi ei rwymo yn hardd,

AIL ARGRAFFIAD O

TELYN DEWI,

SEF GWAITH PRYDYDDAWL Y PARCH. DAVID DAVIS,
GYNT O GASTELL-HYWEL, CEREDIGION.

Fel mae yn hyspys i lawer fod y Gwaith uchod allan o Brint er's blynyddau, a diamheu y bydd ymddangosiad yr Ail Argraffiad hwn yn hyfrydwch ac yn dderbyniol gan Feirdd a Llenorion Cymru. Y mae yn cynnwys llawer o ddarnau o'i waith nad oeddynt yn yr Argraffiad cyntaf—yn nghyd â Hanes ei Fywyd, a Darlun hardd o'r Awdwr.

Erfynir ar bawb a ewyllysiant gael copi o'r Gwaith uchod anfon eu henwau yn ddioed i'r cyhoeddwr, J. DAVIS, Argraffydd, Llanbedr.

AT EIN DARLLENWYR.

Telerau.—Un copi, 3c., gyda'r post 3½.; ar dri chopi a rhagor telir y cludiad.

Anfoner mewn stamps neu order at—"Rev. W. James, B.A., 36, Gadlys Street, Aberdare."

☞ *Pob Archebion a Gohebiaethau i'w hanfon yn gyfeiriedig,—*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Mount Pleasant Garden,
ABERDARE.